# CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 290 - 60c
Chwefror 2011


Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Cyflwyno arian ar ôl rhedeg



Tudalen 10

Cadwyn cyfrinachau yr ifanc



Tudalen 14

Ras y Mast - Sarn Helen




Tudalen 16

## C.Ff.I. Llanwenog ar y brig



Aelodau Clwb Llanwenog wedi eu llwyddiant yn ennill y marciau uchaf fel clwb ar ddiwedd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I. Ceredigion a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar.




Yn y llun o'r chwith i'r dde Cerys Jones, Elfyn Morgans, Rhian Bellamy-Powell, Pete Ebbsworth a Rhian Jones, swyddogion y Sioe.

Cafodd cinio blynyddol Sioe Gorsgoch a CFFI Llanwenog ei gynnal yng Nhafarn Cefn Hafod. Siaradwr gwadd y noson oedd Pete Ebbsworth a chafwyd noson dda yn ei gwmni. Roedd y sioe yn un llwyddiannus y llynedd eto ac o ganlyniad cyflwynwyd mil o bunnoedd yr un i'r Uned Cemotherapi a'r Uned Pelydr X a Sganio yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth. Yn anffodus methodd cynrychiolydd o'r ysbyty ddod lawr i dderbyn y rhodd. Hoffai'r sioe ddiolch i bawb am bob cefnogaeth.



Ar ddiwedd Cwrdd Cwarter a gynhaliwyd yn Soar, Capel yr Annibynwyr, Llambed cafodd Aneurin Davies, Tynffynnon y fraint o dorri cacen i nodi diwedd ei gyfnod yn Llywydd Cyfundeb yr Annibynwyr, Ceredigion. Bu'n gyfle hefyd i ddiolch iddo a chydnabod ei waith diflino fel ysgrifennydd Capel Soar am gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Yn cadw cwmni iddo yn y llun mae'r Parch Guto Prys ap Gwynfor a'r Parch Carys Ann, Ysgrifennydd y Cyfundeb ynghyd â Huw Jenkins a Geraint Jones Lewis diaconiaid.

# Siarad Cyhoeddus Cymraeg Ceredigion a Sir Gâr



Gethin Hatcher, Llanwenog yn ennill tlws y cadeirydd gorau dan 21oed.



Sioned Davies, Llanwenog yn ennill Cwpan y cadeirydd gorau dan 16oed.



Meinir Davies, Llanwenog yn ennill Cwpan y diolchydd gorau dan 16oed.



Cyflwynwyd Cwpan arian i Ifor Jones, C.Ff.I Llanllwni, Sir Gâr fel Unigolyn gorau'r gystadleuaeth Darllen dan 14 oed.



Cyflwynwyd siec am £750 gan Craig Bibby a Darren Jones, Sainsbury's i Richard Jones, Rheolwr Cam-Fan, Llanbed. Dyma'r cyfraniad cyntaf gan Sainsbury's i Cam-Fan, yr elusen leol sy'n cael ei chefnogi ganddyn nhw eleni. Gwnaed y cyflwyniad ym mharti Nadolig Cam-Fan a ohiriwyd oherwydd y tywydd gwael. Yn y llun hefyd gwelir staff a defnyddwyr gwasanaeth.



Cyflwynwyd yn Neuadd Gymunedol Cwmann siec am £1,500 sef elw Ffair Ram 2010 gan y swyddogion Eiddig Jones a Danny Davies, Ysgrifenyddion; Eirios Jones, Cadeirydd, a Ronnie Roberts, Trysorydd i Sian Roberts Jones (ail o'r dde) ar ran y Gymdeithas Motor Neurone Disease. Hefyd yn y llun mae aelodau pwyllgor y sioe.






**YSWIRIANT FUW**

**Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai**

*Arbenigedd lleol*
*Polisïau at bopeth*
*Prisiau cystadleuol*
*Tawelwch meddwl*

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Dewch i drafod eich anghenion gyda
**Alan Jacob** 07968 371823 / 01570 481361
neu
**Gwion James** 07980 608337 / 01570 480623
Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**


**Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.**

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?*
*Hoffech chi weinyddu'r wefan?*
*Neu beth am waith dylunio?*
*Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.*
*Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

# Pwy yw pwy?

**Golygydd:**

| | | |
|---|---|---|
| Chwefror a Mawrth: | Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen | 480526 |
| e-bost: | golygydd@clonc.co.uk | |
| Tîm Golygyddol: | Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan | |
| Dylunydd: | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Swyddog Dosbarthu | Eifion Davies, Afallon, Drefach | 480590 |
| e-bost: | bedwyr@btopenworld.com | |
| Teipyddion | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| | Joy Lake, Llambed | |

**Gohebwyr Lleol:**

| | | |
|---|---|---|
| Cellan | Meinir Evans, Rhydfechan | 421359 |
| Cwmann | Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen | 422922 |
| Cwmsychbant | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Llanwenog/Drefach | Mary Davies neu Eifion Davies | |
| Ffaldybrenin/Ffarmers | Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers | 01558 650507 |
| Gorsgoch | Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod | 434238 |
| Llambed | Janet Evans, Haulfryn | 422856 |
| Llanfair | Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn | 493407 |
| Llangybi a Betws | Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon | 493325 |
| Llanllwni | Dewi Davies, Glanafon | 480218 |
| Llanwnnen | Meinir Ebbsworth, Brynamlwg | 480453 |
| Llanybydder | Menna Jones, Ceginau Lifestyle | 480257 |
| Pencarreg | Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf | 422270 |

# Beth yw beth?

**Bwrdd Busnes:**

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann | 422349 |
| e-bost: | cadeirydd@clonc.co.uk | |
| Is-Gadeirydd | Marian Morgan, Glasfan, Drefach | 480490 |
| Ysgrifenyddes | Mary Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| Trysorydd | Nia Davies, Maesglas, Drefach | 480015 |
| e-bost: | ysgrifennydd@clonc.co.uk | |
| Ceidwad y Camera | Janet Evans, Haulfryn, Llambed | 422856 |
| Ffotograffydd | Tim Jones, Llainwen, Llambed | 422644 |
| Argraffwyr | Gwasg Aeron, Aberaeron | 01545 570573 |

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

# Siprys

**Daeth eto flwyddyn newydd.**

Croesawn 2011 gan ddymuno i holl ddarllenwyr Clonc fendithion y flwyddyn newydd. Cawsom Nadolig i'w gofio gyda'r eira wedi amharu ar lawer o ddigwyddiadau a drefnwyd. Do, cawsom ddigon i'w fwyta a chwmni teulu a ffrindiau. Mwyaf tebyg fod y rhan fwyaf ohonoch wedi cael eich twrci i ginio ddydd Nadolig. Clywais am un wlad Ewropeaidd sydd â thraddodiad o gael ceiliog i ginio dydd Nadolig a chig mochyn ar ddiwrnod cynta'r flwyddyn. Roedd y rheswm am hyn yn ddiddorol. Pan fydd yr iâr allan yn bwyta, mae'n crafu am fwyd ac yn taflu'r pridd tua nôl. I bobl y wlad honno, mae'r iâr yn cuddio pechodau'r flwyddyn wrth daflu'r pridd y tu ôl iddi. Mae'r mochyn ar y llaw arall yn agor y tir o'i flaen ac yn gwahodd y flwyddyn newydd a'i drysorau. Mae'n hyfryd meddwl fod yna resymau gwahanol dros bopeth.

**Difrod Rhew.**

Mae 'na reswm arall da y dyddiau yma dros yrru yn ofalus. Mae tyllau yn ymddangos yn yr heolydd bron dros nos ac yn berygl i fodur ond yn drychinebus i yrwyr ar ddwy olwyn. Y peth rhyfedd yw fod llawer o'r tyllau yma yn ymddangos yn yr un man flwyddyn ar ôl blwyddyn. Natur y ddaear o dan yr hewl sy'n cyfrif. Rwy'n cofio pan yn blentyn am lori laeth yn mynd i drafferthion ynghanol yr hewl wedi difrod eira. Byddwch yn wyliadwrus a rhoi gwybod i'r Cyngor os oes perygl yn ymddangos yn agos i'ch cartre chi.

**Diwedd blwyddyn.**

Fel llawer o Gapeli ac Eglwysi'r ardal, mae'n adeg dod ag adroddiadau i sylw yr aelodau. Mae cwrdd â chostau cadw ein haddoldai ar agor yn gallu bod yn broblem. Mae llawer yn disgwyl dros gan punt yr aelod o leiaf i gadw gweinidog a thalu am gostau'r adeilad. Mae can punt yn swnio'n llawer o arian, ond ydych chi'n sylweddoli faint mae papur dyddiol yn ei gostio mewn blwyddyn i chi? Does dim llawer o newid nôl o £200 mewn blwyddyn.

**Operâu Sebon**

A ydych chi'n disgwyl gwylio a mwynhau? Efallai mai portreadu'r hyn sy'n digwydd yn y byd o'n hamgylch y maen nhw yn ceisio ei wneud. Ond i fi, mae pentyrru problemau'r 'Cwm' i gyd i 25 munud yn diflasu dyn. Oes 'na rywrai yn byw yn hapus? Diawch, oes 'na rywun yn byw bywyd normal? Mae'n sicr fod yna deuluoedd sy'n byw bywyd 'naturiol' o leiaf am gyfnod. Pa bryd mae drwgweithredwyr yn cael ei dal a'u cosbi? Mae ambell i gymeriad yn cael tragwyddol heol i droseddu. Dyna fe, ffuglen yw'r cyfan.

Ond, mae hyn yn fy atgoffa am y plentyn oedd yn holi aelodau'r teulu o ble'r oedd e wedi dod? Cafodd atebion di-ri - o dan lwyn gwsberis meddai un a'r llall yn sôn mai'r crëyr oedd wedi dod ag e. Y plentyn yn llanw'i ddyddiadur y noson honno ac yn dweud nad oedd yr un plentyn wedi'i eni'n naturiol yn ei deulu ers canrifoedd! Ar y nodyn yna, dewch i ni gael bach mwy o fywyd 'naturiol' yn ein hoperâu sebon, plîs.

*Cloncyn*

# Digwyddiadau



Crysau newydd Tîm Pêl-droed dan 11 oed Llanybydder yn cael eu cyflwyno gan Huw Davies a Richard Morgan o gwmni 'Davies & Morgan'.



Rhai o blant a staff Meithrinfa Gwdihws, Llanbed gyda Gareth Loughran, gweithiwr cefnogi gyda chynllun Design to Smile. Cysylltwyd â Gwdihws gan Eryl Daniels, cydlynydd Design to Smile a'u gwahodd i gymryd rhan mewn prosiect peilot. Mae Gwdihws yn un o bedwar lleoliad cyn-ysgol yng Ngheredigion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen beilot i hyrwyddo brwsio dannedd. Mae'r plant y staff a'r rhieni wrth eu bodd yn cymryd rhan.

# Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

**CHWEFROR**

7 Cynhelir Bingo Cylch Meithrin Llanllwni yn y Belle Llanllwni am 8.00y.h.
14 Noson yng ngofal Mary Davies, Llywydd Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
15 Clwb Cerddoriaeth Llambed yn cyflwyno Calvert & Turner ar y Soddgrwth a'r Delyn yn Neuadd y Celfyddydau am 7.30y.h.
19 Disgo Sant Ffolant yn Neuadd yr Eglwys Maesycrugiau – dewch am bwgi – Tâl mynediad £2. Elw tuag at Cylch Meithrin Llanllwni.
21 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.

**MAWRTH**

1 Clwb Cerddoriaeth Llambed yn cyflwyno Rhys Watkins ar y Ffidil yn Neuadd y Celfyddydau am 7.30y.h.
5 Sioe Ffasiynau gan 'Duet' ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambed gyda phaned prynhawn. Elw tuag at MS.
14 Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr yng Ngholeg y Brifysgol Llanbedr Pont Steffan.
16 Arwerthiant Blynyddol Capel Aberduar Llanybydder am 7.00y.h.
17 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed Cynradd yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambed am 1:30y.p.
18 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed Uwchradd yn Neuadd Ysgol Gyfun Llambed am 1:30y.p.
26 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Cynradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
28 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
30 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Dawns ac Aelwydydd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

**EBRILL**

1 Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Uwchradd Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
2 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
11 Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn ymweld a Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb.
25 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
27 Eisteddfod Capel y Groes i ddechrau am 1:30y.p. Croeso cynnes i bawb.

**MAI**

7 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
7 Eisteddfod Talgarreg. Am ragor o fanylion ar 01545 590383 neu 01545 590295.
9 Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr yn Festri Shiloh, Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
23 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
28 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Pantydefaid, Prengwyn.
29 Cymanfa Ganu'r Rali.

**MEHEFIN**

4 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.
13 Taith Ddirgel Merched y Wawr yn Festri Shiloh, Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
27 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.

**GORFFENNAF**

2 Sêl Cist Car yn Ysgol Ffynnonbedr . Trefnir gan y Gymdeithas Rieni ac Athrawon.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

# Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne

**Hengeraint, Llaethliw a Gwerngabwd**

Hengeraint ac Allt Hengeraint yw'r ffurfiau a nodir ar fap yr Arolwg Ordnans. Hengeraint, yn ogystal, a welais yn ddiweddar ar arwydd Cyngor Sir Ceredigion yn ein hysbysu am gynllun i wella'r ffordd ger Llannerchaeron.

Mae'r ffurfiau cynnar ar yr enw Hengeraint yn awgrymu'r ffurf Hengerrynt sef hen + car + hynt, hynny yw, 'hen ffordd gert'. Ail ystyr i 'cerrynt', wrth gwrs, yw 'symudiad dŵr' neu 'symudiad awyr' ac mae'r ystyr honno wedi datblygu dan ddylanwad y Saesneg 'current'.

Gerllaw Hengeraint mae Llaethliw 'o liw llaeth', enw sy'n ymdebygu i Llaethnant yn Llanymawddwy, Sir Feirionnydd. Mae'n bosibl bod Llaethliw yn disgrifio un o ragnentydd Afon Mydr; mae Mydr yn enw a allai ddisgrifio rhythm gyson llif yr afon. Posibilrwydd arall yw cysylltu Mydr â 'mudwr' sef 'un sy'n symud neu'n crwydro'. Gerllaw Llaethliw mae Pont Siolop. Ar fap Arolwg Ordnans 1819 fe'i gelwir yn Pont Lleithliw ond ar fapiau cyfredol yr enw yw Pont Sholop – enw sy'n codi anawsterau lu na allaf i eu datrys ar hyn o bryd.

Mae Afon Mydr a Nant Eilin yn cwrdd ym Mydroilyn ac mae Mydroilyn hefyd yn enw sydd heb ei esbonio'n llwyddiannus. Efallai bod modd cysylltu'r 'oilyn' ym Mydroilyn ac yn Eilin â'r planhigyn 'eilun (berllys)' sef hedge parsley; digwydd 'oilin' yn amrywiad llafar ar hwnnw. Ond mae'r cyfan yn ansicr.

Enw arall sy'n creu anhawster i mi yw Gwerngabwd rhwng Tynlofft a Choedgleision ger Llangybi. Collwyd yr enw Gwerngabwd erbyn hyn a'i ddisodli gan Pen-parc. Mae'n bosibl y gellid cysylltu'r elfen 'cabwd' ag un o amrywiol enwau de-orllewin Cymru ar y planhigyn gardd cyffredin 'Hen Wr' neu Artimisia abrotanum - a rhoi'r enw gwyddonol arno - sef 'shiticabwd' yng Ngheredigion a 'jilicabwd' yn Sir Benfro.

Mae nant Brechan yn ymuno ag afon Dulais ger Melin Llangybi (a aeth erbyn hyn yn fferm Maesyderi). Mae'n debygol mai amrywiad ar yr enw personol Brychan yw Brechan – os felly mae'n enghraifft o enw person wedi'i fabwysiadu'n enw ar afon.


Rydym ar dir sicrach yn achos rhai enwau eraill yn y rhan hon o Geredigion. Mae Yr Aifft yn cyfeirio'n ffigurol at wlad Pharo a'r awgrym a wneir yw ei fod mewn man anhygyrch neu bellennig. Yr hen enw ar Plas-newydd ger Cross Inn (Pennant), yn ogystal, oedd Yr Aifft.

Mae Ffoscabej ger Henfynyw yn teilyngu dwy frawddeg fer. Bresych a ddynodir gan yr ail elfen. Yr un elfen a geir yn y Drofa Gabej, sef enw ar dro ar lwybr troellog afon Camwy ym Mhatagonia.

Ferm yw Caebral rhwng Ffos-y-ffin a Llwyncelyn' Ystyr 'bral' yw clwt ac fe'i defnyddir yn aml i olygu 'dernyn, llain o dir'; mae'n elfen sy'n digwydd yn gyffredin mewn enwau caeau ym mhlwyfi Llanwenog, Llanwnnen a Llannarth. Yn Llannarth hefyd ceir Parc Bralog. Lluosog 'bral' yw 'bralau' a cheir Bralau yn Llangeler a Chefnbralau yn Llanboidy.

Bydd Esgair-ceir, Penrhiwllan a Phenrhiw-pâl yn cael sylw y tro nesaf.



D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 555 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4
Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT
* Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs *
Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

# Colofn y C.Ff.I.

## Sir Gâr

**Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg 2011**

Ddydd Sadwrn 15fed Ionawr cynhaliwyd Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg C.Ff.I Sir Gâr yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Bu yna gystadlu brwd trwy gydol y dydd.

**Darllen**

Daeth Betsan Jones, Betsan Evans ac Ifor Jones, C.Ff.I Llanllwni yn 2ail. Cyflwynwyd Cwpan arian i Ifor Jones, C.Ff.I Llanllwni fel Unigolyn gorau'r gystadleuaeth. Fe fydd Menna Williams, C.Ff.I Llanfynydd, Nia Eyre, C.Ff.I Llanfynydd, Ifor Jones, C.Ff.I Llanllwni yn cael y cyfle i fynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yng nghystadlaethau Cymru ddiwedd Mis Mawrth.

Diolch yn fawr iawn i'r beirniaid sef Crissley Jones, Menna Davies a Helen Phillips am eu gwaith caled ac i Ysgol Nantgaredig am leoliad mor addas ar gyfer y gystadleuaeth. Diolch yn ogystal i Bîff Organig Gwartheg Duon Cymreig - Fferm Tyllwyd am noddi'r diwrnod.

## Ceredigion

Wedi cyfnod tawelach nag arfer i'r clybiau a'r sir oherwydd y tywydd gaeafol, mae'r bwrlwm wedi dechrau unwaith eto wrth i ni ddechrau blwyddyn brysur iawn yn 2011. Dyma'r flwyddyn y bydd mudiad Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn dathlu ei ben -blwydd yn 70 oed a bydd llu o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a hanner nesaf - gobeithio bod pawb yn barod am y cyffro!

**Cwis y sir**

Cynhaliwyd cystadlaethau cwis iau y sir a'r cwis dan 26 cyn y Nadolig. Y cwis iau yng ngofal y Swyddogion Bro, a chwestiynau'r cwis dan 26 yn cael eu gosod gan Lywydd y Sir, Mrs Bronwen Morgan. Dyma'r canlyniadau:

**Cwis Iau**: 1af Llangeitho, 2il Bryngwyn, 3ydd Llangwyryfon. **Cwis amaethyddol**: 1af Llanwenog, 2il Llangeitho, 3ydd Troedyraur. **Cwis Cyffredinol**: 1af Talybont, 2il Mydroilyn, 3ydd Llangeitho. **Cwis Diogelwch ar y ffyrdd** (a nodwyd â gwobr ariannol gan y Cyngor Sir - diolch iddyn nhw): Cydradd 1af Caerwedros a Llanddeiniol, Cydradd 3ydd Mydroilyn a Llanddewi Brefi. **Cwis dan 26** ar ddiwedd y dydd: 1af Llangeitho, 2il Talybont, 3ydd Llanwenog

**'Just a minute'**

Cynhaliwyd cystadleuaeth newydd i ni fel sir ganol Ionawr yn ystod un o'r nosweithiau Tafarn y Mis rydym yn eu trefnu - sef cyfle i aelodau dros 18 oed o bob cwr o'r sir ddod i gymdeithasu mewn tafarn ar nos Wener. Y gystadleuaeth anffurfiol honno oedd 'Just a Minute' - cystadleuaeth Saesneg lle'r oedd gofyn i bawb fod mewn timoedd o 3 a siarad am funud ar bwnc, heb wybod beth oedd y pwnc hwnnw ymlaen llaw. Cafwyd llawer iawn o hwyl yng ngofal yr aelodau hŷn (a rhai dros oedran aelodaeth!), a phob hwyl i Enfys Hatcher o Lanwenog, Harri Davies o Fydroilyn a Caryl Haf o Landdewi Brefi a gafodd eu dewis yn fuddugwyr a nhw fydd yn ein cynrychioli ar lefel NFYFC.

**Siarad Cyhoeddus Cymraeg**

Cafwyd diwrnod prysur iawn ddydd Sul 23 Ionawr 2011 pan aeth siaradwyr cyhoeddus o glybiau ar draws y sir i Felinfach i gystadlu. Clwb Llanwenog ddaeth i'r brig eleni gyda 76 o bwyntiau, gyda Phontsian yn agos ar eu hol yn ail, a Llangeitho'n cipio'r trydydd safle. Cafwyd niferoedd rhyfeddol o gystadleuwyr eleni - gyda 15 tîm yn cystadlu yn y seiat holi dan 26 oed, ac 20 tîm yn yr adran ddarllen dan 14 oed. Anhygoel! Dyma'r canlyniadau a'r aelodau fydd yn cynrychioli'r sir ar lefel Cymru ddiwedd mis Mawrth:

**Dan 26 -** Tîm: 1af Troedyraur, 2il Llanwenog, 3ydd Caerwedros. Cadeirydd: 1af Lowri Evans, Troedyraur. Siaradwr: 1af Catrin Haf Jones, Mydroilyn, 2il Cerys Jones Llanwenog, 3ydd Trystan Jones, Caerwedros.

**Dan 21** - Tîm: 1af Lanwenog, 2il Llangeitho, 3ydd Pontsian. Cadeirydd: 1af Gethin Hatcher Llanwenog, Siaradwr: 1af Enfys Hatcher Llanwenog, 2il Elin Jones Llanwenog, Cydradd 3ydd Dafydd Morgan Pontsian a Carwyn Davies Llangeitho

**Dan 16** - Tîm: 1af Llanwenog, 2il Pontsian, 3ydd Llanwenog a Llangeitho. Cadeirydd: 1af Sioned Davies Llanwenog, Siaradwr: 1af Meleri Morgan Llangeitho, Diolchydd: Meinir Davies Llanwenog.

**Dan 14** - Tîm: 1af Pontsian, 2il Lledrod, 3ydd Dihewyd. Cadeirydd: 1af Elen Davies Pontsian, Darllenydd: 1af Nest Jenkins Lledrod, 2il Catrin Davies Pontsian.

**Clwb 200 Rhagfyr**

1af - C.Ff.I. Llanddewi Brefi. 2il - Helen Hopkins, C.Ff.I. Blaenpennal. 3ydd - C.Ff.I. Llanddeiniol

**Clwb 200 Ionawr**

1af - Dafydd a Delyth, Ystrad Dewi, Llanddewi Brefi. 2il - Eilir ac Enid Jenkins, Haulfryn, Mydroilyn. 3ydd - C.Ff.I. Llangwyryfon

**Hanner awr adloniant**

Dyma'r drefn y bydd y clybiau yn ymddangos ynddo yn ystod hanner tymor mis Chwefror – pob lwc i bawb! Mae tocynnau ar werth o'r swyddfa yn Aberaeron o 7.30 ddydd Mercher 9 Chwefror.

Nos Lun: Felinfach, Llanddeiniol, Mydroilyn
Nos Fawrth: Troedyraur, Penparc, Llanwenog
Nos Fercher: Talybont, Caerwedros, Tregaron
Nos Iau: Llanddewi Brefi, Pontsian, Llangeitho
Nos Wener: Bro'r Dderi, Trisant.

**Dyddiadau i'ch dyddiaduron**

21-25 Chwefror – Cystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Sir, Theatr Felinfach
4 Mawrth – Dawns Dewis Swyddogion y Sir – Tyglyn Aeron
12+13 Mawrth - Gwledd o adloniant C.Ff.I. Cymru, Theatr y Grand, Abertawe
18 Mawrth – Chwaraeon Dan Do y Sir, Llanddewi Brefi *dyddiad wedi'i aildrefnu*
21 Ebrill - Cinio'r Cadeirydd


Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

COMPASS OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
01570 422955
01570 422232

Mwnci ffwnci
Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
• Bwyd Priodas
• Bwffe
• Te Angladd
• Digwyddiadau Maes
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

# Drefach a Llanwenog

**Eglwys Santes Gwenog**

Oherwydd y tywydd gaeafol – ac fel y mwyafrif o'n capeli ac eglwysi – bu'n rhaid gohirio gweithgareddau tymor y Nadolig. Braf oedd cynnal y Plygain ar y 7fed o Ionawr, gyda'r Parch Suzy Bale yn cymryd y rhannau arweiniol. Dyma'r Plygain olaf i'r Parchedig Ganon Aled Williams ei threfnu wedi ei ymddeoliad yn Deon Bro. Talwyd teyrnged iddo am ei waith brwdfrydig a chydwybodol dros lawer o flynyddoedd gan y Deon Bro newydd sef y Parch Phillip Wyn Davies, ficer Tregaron. Canwyd carolau yn null traddodiadol y Plygain gan bartïon o chwech o Eglwysi'r Ddeoniaeth. Braf oedd cael Eglwys orlawn a phawb wedi mwynhau y gwasanaeth a'r lluniaeth fu'n dilyn yr Oedfa. Diolchwyd i wragedd yr eglwys am baratoi'r bwyd, ac i Mrs Pauline Roberts-Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Bu aelodau 'Clwb Cerdded Llambed' dan arweiniad Kay Davies yn ymweld â'r Eglwys wrth iddynt gerdded un o lwybrau cyhoeddus y Plwyf. Braf oedd eu croesawu a chafwyd orig hapus yn eu cwmni.

Ar y 12fed o Ionawr bu Cymdeithas Hŷn Llanwenog yn cynnal eu cyfarfod misol yn yr eglwys. Braf oedd cael eu croesawu hwythau hefyd. Cydymdeimlwn yn fawr â Chadeirydd y Gymdeithas, Mrs Dilwen George yn ei phrofedigaeth o golli ŵyr annwyl yn ddiweddar.

Cyn diwedd y flwyddyn daeth cyfres o ddarlithoedd ar 'osod blodau' i ben. Diolchwyd yn fawr i Nicola, Siop Flodau Cascade Llambed am ei pharodrwydd i'n hyfforddi.

Llongyfarchiadau i Sioned Davies, y Cartws, Prengwyn am basio arholiad Piano Gradd 5, dan nawdd Coleg Brenhinol Llundain.

Ar y 24ain o Chwefror, cynhelir Noson Cwis gyda chaws a gwin i ddilyn yn yr Eglwys Fach. Mynediad yn £5.00; croeso cynnes i bawb. Byddwn yn trosglwyddo £300 i Ambiwlans Awyr Cymru ym mis Ebrill, arian a godwyd mewn raffl yn y Te Fictoraidd ym Mis Tachwedd.

Braf yw gweld Mrs Viria Jones, Gellideg yn parhau i wella wedi ei llawdriniaeth, a hefyd Mrs Mali Evans, Rylwyn a fu'n derbyn triniaeth dros gyfnod hir.

Ein cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.

**Clwb 100 Tachwedd**

£15.Mrs Margaret Thomas, Llechwedd

£10.Mrs Megan Jones, Rhandir

£5. Ken Davies, Rhydyfodrwydd

Clwb 100 Rhagfyr

£15. Alan Mellor, Rhiwson Isaf

£10. James Fillery

£5. Parch Suzy Bale,Y Ficerdy

Bonws Nadolig o £5 yr un i – Lilian Davies; Amila Evans; Iwan Brain ac Emilia Murphy.

**Ysgol Llanwenog**

Hoffai pawb yn Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Clonc!

Bu diwedd y flwyddyn 2010 yn gyfnod cyffrous iawn yn yr ysgol. Daeth Siôn Corn i ymweld â ni yn ein Groto arbennig. Diolch yn fawr i'n staff cynorthwyol, sef Ms Enfys Morgan, Mrs Nia Evans a Mrs Angharad Hull am addurno'r ystafell mor hardd. Braf iawn oedd cael croesawu rhai o blant Ysgol Feithrin Drefach i'n plith hefyd i fwynhau'r hwyl a'r dathlu. Cawsom Ginio Nadolig blasus tu hwnt a baratowyd gan ein cogyddes weithgar, Eleri Davies.

Braf iawn yw cael croesawu tri disgybl newydd sef Hannah Ayonoadu, Tyler Walker a Luke White i ddosbarth y Babanod. Rwy'n siŵr y byddant yn hapus iawn yn ein plith. Croesawn hefyd Miss Ruth Davies yn ôl yn Athrawes Fro.

Yn ystod mis Rhagfyr y llynedd cynhaliwyd Cystadleuaeth Cogurdd yn yr ysgol. Cawsom brynhawn hyfryd o goginio a blasu a bu Mrs Mair Hatcher yma yn beirniadu'r gystadleuaeth. Canmolwyd safon y coginio yn uchel ganddi. I'r brig daeth Katie Brown, yn ail Ffion Evans ac yn drydydd Osian Davies.

Hoffai'r ysgol ddymuno gwellhad buan i Mr Leighton Williams a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Bu Mr Williams yn dysgu Celf i'r Adran Iau yn ystod tymor yr hydref.

Cynhaliwyd gweithdy radio yn Ysgol Llanwenog yn ystod y mis pan ddaeth disgyblion blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Llanwenog a Llanwnnen ynghyd i greu rhaglen radio a oedd yn cynnwys elfennau o sgriptio, recordio a pherfformio. Mae'r rhaglen yn werth ei chlywed. Diolch yn fawr iawn i Mr Marc Griffiths am gynnal y diwrnod hwylus yma gyda ni a dymunwn yn dda iddo gyda'r fenter.

Trist yw nodi bob Mrs Liz Mills yn ymddeol o'i swydd fel athrawes yn yr ysgol hon. Trefnir tysteb iddi yn werthfawrogiad am dros ugain mlynedd o wasanaeth i Ysgol Gynradd Llanwenog. Os dymunwch gyfrannu, cysylltwch â ni yn yr ysgol ar 01570 480382. Byddwn yn parhau i dderbyn cyfraniadau tan ddechrau mis Mawrth.

**Cylch Meithrin Gwenog**

Bu'r plantos bach ar drip cyn y Nadolig i weld sioe o'r enw 'Hosan a Stori' gan Gwmni Drama Arad Goch yn eu canolfan newydd yn Aberystwyth. Cawsom groeso cynnes iawn yno gan bawb. Diolch hefyd i Ysgol Llanwenog am ein gwahodd i ymuno â nhw. Diolch yn fawr iawn hefyd i'r sawl a fu'n helpu wrth i ni baratoi ar gyfer ein harolwg gan yr asiantaeth CSSIW. Roedd yr arolygwr yn hapus iawn â'r cyfleusterau a'r holl brofiadau amrywiol ac heriol rydym yn eu darparu ar gyfer y plant ac felly edrychwn ymlaen yn awr at groesawu arolygwyr ESTYN atom eleni.



Dyma rai o'r disgyblion yn paratoi rhaglen radio gyda Mr Marc Griffiths yn y gweithdy a gynhaliwyd yn Ysgol Llanwenog yn ddiweddar.

**C.Ff.I Llanwenog**

Aeth nifer o aelodau'r clwb i wylio Pantomeim Felinfach. Roedd yn braf gweld Gwawr Hatcher, aelod gweithgar o'r clwb yn cymryd rhan yn y panto. Cafodd pawb noson o chwerthin iach.

Roedd ein llywyddion Elfyn a Sharon Morgans, Glwydwern wedi trefnu noson o gwis a gêmau yn Ysgol Llanwenog, roedd pawb wedi joio yn eu cwmni.

Cynhaliwyd ein Dartiau Twrci blynyddol yng Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Gan fod yr eira yn disgyn yn drwm, daeth tua deugain o gystadleuwyr. Ar ôl noson frwd o gystadlu Gethin Hatcher a Llyr Davies gipiodd gwobr yr aelod gorau a Lee oedd yn fuddugol yn y categori agored. Llongyfarchiadau i chi gyd!

Rhaid oedd gohirio dyddiad cyntaf y Canu Carolau oherwydd yr eira trwm ond serch hynny penderfynwyd ein bod am fynd i ganu Noswyl y Nadolig. Aeth pedwar grŵp ohonom o amgylch y plwyf a diolch i bawb am y croeso cynnes a gawson. Casglwyd swm arbennig iawn o £920. Bydd £150 yr un yn cael ei drosglwyddo i Ganolfan y Bont ac Uned Sensori Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd pawb yn ôl i'r clwb ddechrau'r mis drwy gael Noson o Grefftau yng nghwmni Eluned Davies, Bryniau, Dihewyd. Rwy'n siŵr fod pawb wedi dysgu rhywbeth newydd.

Daeth diwrnod cystadleuaeth gyntaf y Sir am 2011, sef y Siarad Cyhoeddus Cymraeg. Diwrnod llawn o gystadlu brwd oedd yn cael ei gynnal yng Nghampws Theatr Felinfach. Fe wnaeth y clwb yn arbennig o dda. Dyma'r canlyniadau

*Adran Darllen 14 oed neu iau* - Cadeirydd - Iwan Evans 3ydd. *Adran Iau 16 oed neu iau* - Cadeirydd - Sioned Davies 1af; Siaradwr - Gwawr Hatcher 2il, Carwyn Davies a Sioned Hatcher cydradd 3ydd. Diolchydd :- Meinir Davies 1af. Cipiodd Llanwenog A, sef Meinir Davies, Sioned Davies a Sioned Hatcher wobr y tîm gorau a daeth Llanwenog C yn drydydd gyda Emma Newton-Jones, Sioned Fflur Evans a Gwawr Hatcher.

*Adran Ganol 21 oed neu iau* - Cadeirydd :- Gethin Hatcher. Siaradwr :- Enfys Hatcher 1af, Elin Jones 2il. Cipiodd Llanwenog wobr y tîm gorau yn yr adran yma hefyd gyda Gethin Hatcher, Elin Jones ac Enfys Hatcher.

*Adran Hyn 26 oed neu iau* Cadeirydd :- Enfys Hatcher cydradd 2il. Siaradwr :- Cerys Jones 2il

Daeth llwyddiant i'r tîm yma hefyd wrth gipio'r ail wobr; aelodau'r tîm oedd Enfys Hatcher, Cerys Jones, Helen Howells ac Arwel Jenkins.

Ar ôl yr holl ganlyniadau daeth Clwb Llanwenog i'r brig ac ennill Tarian Brynhogfaen am y Clwb Buddugol. Llongyfarchiadau mawr i bawb! Hoffai'r holl aelodau ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a'u help. Pob lwc i'r holl aelodau a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Llanfair ym Muallt ddechrau mis Mawrth.

Noson 'Siôn a Siân' a gafodd ei chynnal yng Nghefn Hafod y nos Lun ddilynol. Cafwyd nifer o barau yn ateb cwestiynau am ei gilydd. Diolch i Geraint Hatcher am fod yn gwis feistr. Carwyn a Sioned Fflur oedd y cwpwl perffaith!

# Drefach a Llanwenog

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â Mary, Gareth, Nia, Dylan ac Elen, Maesglas ar golli mam, mam yng nghyfraith a mam-gu annwyl sef Mrs Margaret Rowlands, Felinfach a fu farw rhai dyddiau cyn y Nadolig yng Nghartref Maes-y-felin, Drefach.

**Adref**

Braf yw gweld Gareth Davies, Maesglas adref ac o gwmpas y lle unwaith yn rhagor ar ôl iddo dreulio rhai diwrnodau yn Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli yn derbyn triniaeth.

**Diolch**

Dymuna Mary, Gareth, Nia, Dylan ac Elen, Maesglas ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad, boed yn gerdyn, blodau, llythyron, galwadau ffôn yn dilyn eu profedigaeth lem yn ddiweddar.

Hefyd, hoffai Gareth ddiolch am y consyrn a ddangoswyd tuag ato pan fu yn yr ysbyty ddechrau 2011.

**Swydd Newydd**

Dechreuodd Nia Davies, Maesglas swydd newydd ym mis Ionawr fel Cynorthwy-ydd y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Felinfach. Dymuniadau gorau i ti a gobeithio y byddi di'n hapus yn dy swydd newydd.

**Y Gymdeithas Hŷn**

Eglwys Llanwenog oedd man cyfarfod y Gymdeithas ar y 12fed o Ionawr, a chroesawyd pawb yno gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd.

Cydymdeimlwyd â Dilwen George yn ei phrofedigaeth lem o golli ŵyr ym mis Tachwedd, ac â Eifion Davies, wedi iddo yntau golli ei frawd dros gyfnod y Nadolig.

Dymunwyd wellhad i Sally Jones, Brynhyfryd wedi ei salwch, ac i Olive Davies a Ray Thomas yn dilyn eu damweiniau.

Siaradwraig wadd y diwrnod oedd Anthea Jones, Stryd y Coleg, Llambed, sy'n Weithiwr Cymorth gyda "Gofal a Thrwsio Ceredigion". Asiantaeth yw hon sy'n hyrwyddo annibyniaeth i bobol dros eu 60 er mwyn eu galluogi i aros yn eu cartrefi yn hytrach na gorfod mynd i ysbyty neu gartref henoed. Ariannir yr Asiantaeth yma gan y Cynulliad, Cyngor Sir Ceredigion a Cantref. Wedi derbyn cais, bydd gweithiwr yn dod i'r tŷ i asesu'r cymorth sydd ei angen ac yn cynnig cyngor am ffynonellau posib i ariannu'r gwaith, gan roi help gyda'r dasg enbyd o lanw ffurflenni cais.

Diolchwyd yn gynnes i Anthea gan Yvonne Davies; mae'n dda gwybod fod yna rywrai lleol i droi atynt pan fo angen cyngor, a chafwyd llawer iawn o wybodaeth ddefnyddiol.

Mwynhawyd paned a phice bach wedi eu paratoi gan wragedd yr Eglwys, a diolchwyd yn gynnes iddynt gan Mair Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror y 9fed yn Festri Capel y Groes, pan fydd y Parch. Dyfrig Lloyd, Llanddewi Brefi yn dod i'n diddanu.

**Diolch**

Dymuna Eifion a'r teulu, Afallon Drefach, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd wedi marwolaeth ei frawd, Evan Tom.

Bu'r teulu yn byw am gyfnod yn Llety'r Wennol, Cwrtnewydd.

**Cylch Meithrin, Drefach.**

Cynhaliwyd stondin gacennau yn y mart yn Llanybydder ddechrau mis Rhagfyr. Er gwaetha'r tywydd oer, cafwyd bore llwyddiannus dros ben.

Cafwyd parti Nadolig yn y cylch, a chyn diwedd y bore daeth Santa ag anrheg i bob un o'r plant.

Daeth gwahoddiad o Ysgol Llanwenog i'r plant ymweld â groto Santa. Cawsom groeso cynnes iawn gyda diod a mins peis blasus.

Pob hwyl i Elan Jenkins a Ryan Parsons yn eu hysgolion newydd.

Croeso cynnes i'r cylch i Luke Rees a Roland Weedon, ac hefyd i Miss Llinos Beynon sydd wedi ymuno â ni yn y cylch. Gobeithio y byddi di'n hapus yn ein plith.



Mark Williams AS; Yr Arglwydd Elystan Morgan, a oedd yn cadeirio'r lansiad; Lisa Francis, Cadeirydd Ie dros Gymru – Ceredigion; Richard Meirion Griffiths, Gwesty'r Richmond) ac Elin Jones AC

# Cwrtnewydd

**Ysgol Cwrtnewydd**

Blwyddyn Newydd dda a braf yw cael croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig! Mae pawb wedi cael saib hyfryd, ac erbyn hyn yn barod am dymor prysur iawn. Croeso cynnes i Elan Jenkins i'r dosbarth babanod ac i Morgan James i'r dosbarth Iau.

Ar ôl noson lwyddiannus yn ein cyngerdd Nadolig trosglwyddodd yr ysgol £382.00 i Ward Steffan yn Ysbyty Glangwili.

Braf oedd croesawu cyn ddisgybl, Marc Griffiths, yn ôl i'r ysgol. Bu Marc yn brysur gyda phlant blwyddyn 3, 4, 5 a 6 yn cynllunio a creu rhaglen radio. Cafodd y plant ddiwrnod llawn cyffro a diolchwn i Marc am roi cyfle gwych fel hyn i'r plant. Cewch wrando ar y rhaglen drwy gyfrwng gwefan yr ysgol.

Cynhaliwyd clwb cyntaf yr Urdd yn 2011 lle bu'r plant yn gwneud gweithgareddau amrywiol o'u dewis.

Cofiwch os ydych am ddefnyddio cyfleusterau yr ysgol, rhowch alwad ar 01570 434273.



Beca a Hanna fu'n mynychu gweithdy Celf a Chrefft gyda'r Urdd yn ddiweddar.

**Clwb 100 Rhagfyr 2010**

1af – Briallt Williams, Hafod y gors, Gorsgoch. 2ail – Nanna Jones, Garth, Cwrtnewydd. 3ydd – Gareth Richards, Llain, Rhydlewis. 4ydd – Arthur Roberts, 12 Glyn Bedw, Rhoslefain. 5ed – Cerys Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychbant

**Ionawr 2011**

1af – Olwen Roberts, 12 Glyn Bedw, Rhoslefain. 2ail – Rosie Davies, Croesmaen, Llanfihangel ar Arth. 3ydd – Delyth Richards, Llain, Rhydlewis. 4ydd – John a Mary Jones, Penrheol, Cwmsychbant.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Ifor ac Eluned Jones, 5 Cae Sarn, ar enedigaeth eu merch fach, Esyllt Megan.

**Pen-blwydd Arbennig**

Dathlodd Rob Long, Llysalaw ei ben-blwydd yn 40 oed yn ystod mis Ionawr. Gobeithio eich bod wedi mwynhau eich diwrnod!

**Diolch**

Dymuna teulu'r diweddar Getta Evans, Melrose ddiolch yn gynnes am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau, rhoddion a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at Meddygfa Teifi, Llandysul. Diolch i feddygon Meddygfa Teifi a diolch yn arbennig i Staff Cartref Maes-y-felin am eu gofal. Diolch hefyd i'r trefnwr angladdau, Cenfil Reeves, Talgarreg am ei drefniadau graenus a gofalus ac i Jill Tomos am ei gwasanaeth hithau.

**Cydymdeimlad**

Ddiwedd 2010 daeth y newyddion trist am farwolaeth Vernon Griffiths, Fferm y Cwrt yn dilyn salwch blin. Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda'i briod Gill a'r teulu oll yn eu galar. Fe fu'r angladd yng Nghapel y Bryn ac yno hefyd y daearwyd ei weddillion.


Ceris Morgan
**yn trin gwallt yn eich cartref**




**Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.**

Prisau rhesymol.
**Ffoniwch: 07738 492613**
*Cwmann*
*ond yn barod i deithio'r ardal.*

WD Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Creative Cove
**40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985**
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Cefn-hafod
Gorsgoch
☎ 01570 434238
Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.
*Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.*
Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

# Cwmann

**Arholiadau Telyn**

Llongyfarchiadau i Mari Elen Lewis, Ty Cerrig ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei harholiad Telyn, Gradd 1. Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Elen, Glennydd, Llambed ar basio'i harholiad Gradd 5 gydag anrhydedd. Mae Mari a Lowri yn cael eu dysgu gan Georgina Cornock-Evans.

**Sefydliad y Merched Coedmor**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn o Sefydliad y Merched Coedmor ar Ionawr 3ydd yng Nghanolfan Cwmann. Croesawodd y Llywydd Mrs Noeleen Davies yr aelodau gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cyflwynodd ein gwestai am y noson sef Guto Gwilym, un o ieuenctid gweithgar yr ardal. Bu Guto allan ym Mhatagonia ym mis Hydref am bythefnos gyda chriw o 27 o aelodau Urdd Gobaith Cymru. Ar ddiwedd ymweliad yr Urdd arhosodd Guto am gyfnod pellach tan ddechrau mis Rhagfyr a threulio'r amser yn Nhalaith Chubut yn gwneud gwaith gwirfoddol. Treuliodd ran fwyaf ei amser yn Nhrevelin yn yr Andes. Bu'n cynorthwyo yn yr Ysgol Gymraeg, yn helpu mewn nifer o ddosbarthiadau Cymraeg, o oed meithrin hyd at oedolion. Treuliodd peth o'i amser yn cerdded ar hyd Cwm Hyfryd yng nghwmni Merched y Wawr Trevelin.

Cafwyd hanes diddorol a brwdfrydig o'r amser a gafodd yn y Gaiman a Threlew yn y Dyffryn, a Threvelin ac Esquel yn yr Andes. Roedd hanes ei ymweliad a'r mwynhad amlwg a gafodd ym Mhatagonia yn ddigon i annog y gwrandawyr i gyd feddwl am wneud taith i'r Ariannin!

Diolchwyd iddo yn gynnes iawn gan Ann Lewis. Enillwyd y raffl fisol gan Dilys Godfrey. Helena Gregson ac Ann Lewis oedd yn gyfrifol am wneud y te

Bydd y cyfarfod nesa ar Chwefror 7fed pan fydd Elaine Davies, Nanna Ryder a Menna Jones yn aelodau o banel fydd yn trafod pynciau amrywiol a diddorol. Croeso cynnes i bawb.

**Ysbyty**

Gwellhad buan i Mrs. Davies, 19 Heol Hathren, sydd yn Ysbyty Glangwili ac i bob un arall sydd wedi bod yn anhwylus dros y misoedd oer diwethaf.

**Cydymdeimlo**

Estynnwn gydymdeimlad ag Erina Jones a'r teulu, Cae Coedmor ar farwolaeth ei mam Mrs. Dilys Jones, Cae dash (gynt) a chwaer yng nghyfraith i Mrs. Phyllis Jones, Cilgell.

**Clwb 125 Mis Rhagfyr**

1. Mr D. Herberts, Dolfor, Cwmann, 84, 2. Mr S. Mason, 21 Treherbert, Cwmann, 3. Mrs E. Warmington, Falkland, Bryn Rd, Lampeter, 85, 4. Mrs Y. Jones, Tanybryn, Cwmann, 87, 5. Mrs M. Thomas, Brondeify, Cwmann, 66, 6. Mrs B. Luker, 17 Treherbert, Cwmann, 2, 7. Mrs E. Brown, Cae Ram, Cwmann, 37, 8. Mrs E. G. Lloyd, 14 Heol Hathren, Cwmann, 43, 9. Mr Gwynfor Lewis, Bronwydd, Bridge St, Llanbed, 105, 10. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92.

**Clwb 250 Mis Rhagfyr**

1. 15, Canon a Mair Richards, Maesteify, Cwmann, 2. 20, Delyth a Emyr Jacob, Frondeg, Pencarreg, 3. 210, Mrs M. Jones, Glanhelen, North Rd, Llanbed, 4. 37, Mrs Joyce Evans, Rhos Inn, Parcyrhos, 5. 6, Ann Douch, Maestroyddin Fawr, Harford, 6. 190, Mr a Mrs. Kidby, Erwaun, Parcyrhos, 7. 104, Seren Ling, 35 Heol Hathren, Cwmann, 8. 49, Maureen Evans, Brynmaen, Cwmann, 9. 7, Terence Watkins, 4 Heol Hathren, Cwmann, 10. 29, Julie Davies, 3 Nantyglyn, Cwmann.

**Clwb 125 Mis Ionawr**

1. Gwen Jones, Derymore, Cellan, 13, 2. Lena Williams, 39 Heol Hathren, 98, 3. D. Gilbey, 48 Hel Hathren, Cwmann, 4. Meinir Harries, Bryn-yr-Efar, Pennant, 5. Les a Marjorie, Golwg-y-Dyffryn, Cwmann, 67, 6. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 57, 7. Chris Lloyd, 7 Heol Hathren, Cwmann, 147, 8. Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 56, 9. Ceinwen Evans, Felinfach, Cwmann, 28, 10. Jean Thomas, 4 Cwrt Deri, Cwmann.

**Clwb 250 Mis Ionawr**

1. 28, Gwyn Williams, Wyngarth, 2. 113, Mrs. Davies, 37 Heol Hathren, 3. 64, David Davies, Glenview, Pencarreg, 4. 225, W. Randell, Blaencwm, Cwmann, 5. 131, Mrs. D. Harries, 21 Heol Hathren, 6. 92, Adrian Davies, Hafod, Lôn Ram, 7. 190, Mr a Mrs. Kidby, Erwain, 8. 109, Emyr Jones, Araul, Cwmann, 9. 116, Mair James (c/o Phylis Smith), 10. 199, L. King, Tafarn Jem.

Rhifyn mis Mawrth
Yn y Siopau
**Mawrth 3ydd**
Erthyglau i law erbyn
**Chwefror 17eg**
Newyddion i law erbyn
**Chwefror 21ain**

# Gohebiaeth

Y Ganolfan Cynllunio Iaith
Uned 2-4, Parc Busnes Aberarad,
Castell Newydd Emlyn, Sir Gâr,
SA38 9DB

Annwyl ddarllenwyr,

A oes gan eich darllenwyr brofiad o'r gwasanaeth iechyd neu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol y bydden nhw'n barod i'w rannu? A oedd hi'n hawdd derbyn gwasanaeth yn Gymraeg neu a oedd rhwystrau? Pa effaith gafodd hynny arnyn nhw? A oedden nhw'n hapus â'r gwasanaeth, neu a oes ganddyn nhw negeseuon am y ffordd y gellid gwella'r ddarpariaeth Gymraeg? Dyma'r cwestiynau y mae Llywodraeth y Cynulliad a Chyngor Gofal Cymru yn awyddus i gael atebion iddyn nhw ac maen nhw wedi comisiynu tîm o ymchwilwyr o'r Ganolfan Cynllunio Iaith i wneud y gwaith. Yma yn y Ganolfan rydyn ni'n awyddus i siarad â defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr a all ddweud wrthon ni sut brofiad gawson nhw, boed hynny'n ganmoliaeth neu'n gŵyn. Rydym yn awyddus iawn i glywed am brofiadau sy'n ymwneud â phlant, pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl (yn cynnwys dementia), ac â phobl ag anableddau dysgu.

I wybod mwy am yr ymchwil a sut i gymryd rhan, mae croeso mawr i ddarllenwyr gysylltu ag Elaine Davies yn y Ganolfan Cynllunio Iaith ar 01239 711668 neu elaine.davies@iaith.eu. Caiff pob cyswllt a chyfraniad eu trin yn hollol gyfrinachol. Edrychaf ymlaen yn fawr at glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb i gymryd rhan cyn dydd Gwener, Chwefror 11.

Yn gywir
*Elaine Davies* ar ran y tîm ymchwil

# Llanybydder

**Capel Aberduar Llanybydder**

Oherwydd y tywydd garw gorfu i Gapel Aberduar, fel llawer capel arall, ohirio'r oedfa Nadolig. Penderfynwyd ei chynnal ar yr unfed ar bymtheg o Ionawr a daeth cynulleidfa luosog ynghyd i ddathlu geni'r Iesu yng nghwmni ieuenctid y capel. Cerys Jones fu yn arwain ac yn ddolen gyswllt yn ystod y gwasanaeth. Cyflwynwyd yr emynau gan Elin Evans, Dewi Davies, Rhian Jones, Ann Milcoy, Rhodri Evans a Christopher Jacob gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cafwyd darlleniadau gan Llyr Davies, Elin Evans ac Arwel Jenkins. Offrymwyd gweddïau gan Rhian Milcoy a Lowri Wilson. Cafwyd neges bwrpasol iawn gan ein gweinidog, y Parch Jill Tomos, a bu hefyd yn gweini wrth fwrdd y cymun. Diolchodd yn gynnes iawn i bawb a fu yn cymryd rhan yn yr oedfa. Ar ôl yr oedfa fe wnaeth pawb droi am y festri am baned a sgwrs wedi ei baratoi gan y chwiorydd. Diolch iddynt hwythau hefyd. Hyfryd oedd cael clywed yr hen, hen hanes unwaith eto a dathlu gyda'n gilydd er bod yr ŵyl wedi bod.

**Diolch**

Llongyfarchiadau i Donald a Julia Jenkins, Bedlwyn, Felinfach ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Eu dymuniad oedd rhoi unrhyw arian a dderbynient ar yr achlysur at elusen. Yn ganlyniad i hynny, cyflwynwyd £500 at gangen Llambed a Llanybydder o Ymchwil y Cancr. Diolch yn fawr iddynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Dymuna teulu y diweddar Mrs Eirwen Jenkins, Glaneinon ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth gan golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl.

Gwerthfawrogir yn fawr yr ymweliadau, galwadau ffôn, rhoddion, blodau a chardiau a dderbyniwyd. Diolch yn arbennig am y cyfraniadau tuag at Nyrsys y Gymuned. Diolch yn ogystal i Mr Robert Davies am darparu lluniaeth ar ddiwrnod yr angladd ac i Mr Gwilym Price, ei Fab a'i Ferched am drefnu'r cyfan gydag urddas.

Dymuna Lena Williams, Hafan y Waun, Aberystwyth ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau sydd wedi ymweld â hi yn gyson yn ystod y flwyddyn diwethaf ac hefyd am yr anrhegion dros y Nadolig. Rwyf yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.

**Arholiadau Cerdd**

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar basio eu harholiadau cerdd dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol:

Piano Gradd 1 – Elin Davies, Tyngrug-Isaf [anrhydedd]

Ysgrifenedig Gradd 2 – Rhys Davies, Tyngrug-Isaf [anrhydedd], Gradd 3 – Sioned Fflur Evans, Glantrenfach; [teilyngdod]; Gradd 5 – Sioned Davies, Y Cartws.

Sacsaffôn Gradd 7 – Gareth Davies, Llys Enwyn [anrhydedd].

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys a theulu'r diweddar Haydn Evans, Delhi, a fu farw yn sydyn yn ystod mis Ionawr.

**Rhodd**

Bu Myra Morris, Awelon, Rhydybont yn dathlu pen-blwydd arbennig yn yr Hydref. I ddathlu, penderfynodd drefnu noson ynghyd â Dorian Davies, Drefach yn y Clwb Rygbi yn Llanybydder i godi arian at gangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru. Bu nifer o fechgyn yn siafio'u gwallt ac yn rhoi wacs ar eu coesau a chael eu noddi i wneud hynny. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd siec am £2,600 i'r elusen. Diolch yn fawr i bawb a fu ynghlwm â'r noson.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion ac Oriel

**Sianti**

Uned 2 Monumental Works,
Stryd y Fro, Aberaeron
gyferbyn a Banc y Natwest
01545 571510
www.sianti.org



**Toriad Taclus**

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425



**Ruth Thomas a'i Chwmni**
**Cyfreithwyr**

19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref*



Ymgynghorwyr Yswiriant
***Eryl Jones***
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

**Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr**
**Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA**
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority



**FISHERS ARMS**



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

**Cellan, Llambed**
01570 422895


# Llangybi a Betws

**Ysgol Y Dderi**

Croeso cynnes iawn i'r plant newydd a ymunodd â ni ddechrau'r tymor sef, Kimberly, Dion, Sara, Beau, Shay, Poppy a Conner.

Cafwyd cwmni Sara Jones, myfyrwraig o Goleg Y Drindod am dridiau ddechrau'r tymor. Bu Sara yn arsylwi yng nghyfnod allweddol 2.

Mae gwersi Ffrangeg wedi ailddechrau ar nos Iau. Diolch i Bernadette am eu dysgu.

Bu Liam Newitt ac Elinor Griffiths yn cynrychioli'r ysgol ym mhwyllgor Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn Neuadd Goffa Aberaeron ar y 19eg o Ionawr.

Bu disgyblion blwyddyn 4 ar ymweliad â ffatri ddŵr potel Tŷ Nant yn rhan o thema'r tymor sef 'Bwyd a Ffermio'.

Cafwyd diwrnod bendigedig ar Fferm Bwlchwernen gan blant y Cyfnod Sylfaen. Dysgwyd llawer am ffermio organig a sut i wneud caws a chafwyd cyfle i flasu caws arbennig Yr Hafod. Diolch o galon i Becky Holden am y croeso twymgalon ac i Sam Holden ac Iona Davies am ei chynorthwyo.

Croesawyd Cwmni Theatr Bypedau Cymru atom fore Gwener 21ain o Ionawr. Roedd plant y Cyfnod Sylfaen wedi mwynhau perfformiad 'Cwilt Siôn' yn fawr gan ddysgu am hanes y tŷ unnos.

Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen wrth gynnal disgo ar y cyd â'n clwb ôl ysgol 'Clwb Mes Bach'. Diolch i'r swyddogion ac i staff yr ysgol am eu cymorth.

Mae plant y Dderi bellach yn arbenigwyr wrth adnabod adar eu cynefin wedi iddynt dreulio amser yn gwylio adar yn rhan o brosiect Little Schools Big Bird Watch. Diolch i Mr Roger ac i Mr Ian Morris am eu cymorth.

Dymunwn ddiolch i Mrs Nerys Southgate sydd wedi bod yn rhan o'n tîm dysgu ers mis Medi ac estynnwn groeso cynnes yn ôl i Mrs Hayley a fydd yn ailgydio yn ei dyletswyddau'r mis yma.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Dorian a Louise Hicks ar enedigaeth eu plentyn cyntaf anedig ddydd Nadolig, sef Owen Lewis - ŵyr i Geoffrey a Denise Hicks, Pwllglas - cefnder i Ceris, Bronwen a Lily.

**Merched y Wawr y Dderi**

Dymunodd y Llywydd flwyddyn newydd dda i bawb a chroesawyd y gwesteion yn gynnes iawn i gyfarfod cyntaf 2011. Cawsom noson ragorol iawn yng nghwmni Eifion ac Yvonne Davies. Hanes Llambed oedd y testun a diddorol iawn oedd gweld a chlywed am y newidiadau oedd wedi digwydd yn y Stryd Fawr, llawer ohonom yn cofio fel yr oedd y stryd yn edrych dros hanner can mlynedd yn ôl. Rhoddwyd pleidlais wresog o diolch am noson o hanes diddorol gan Jen Mathias.

Cydymdeimlwyd ag Iris Quan yn ei phrofedigaeth ar golli chwaer yng nghyfraith. Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth a Deborah Jones ac fe'i henillwyd gan Irene Lewis a Mair Spate. I ddiweddu y cyfarfod cawsom baned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 16eg gyda darlith ar y diweddar Islwyn Ffowc Ellis gan y Bon. Rheinallt Llwyd. Croeso i aelodau newydd ymuno.

**Hamdden**

Ddydd Gwener cyntaf y flwyddyn fe aeth yr aelodau am ginio Calan i'r Castle Green ac yno y cawsom wledd fendigedig yn ein disgwyl a chwmni diddan. I ddiweddu y cyfarfod canwyd rhai carolau adnabyddus â Rowena Williams yn cyfeilio. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am y croeso, y gwasanaeth a'r bwyd blasus gan Maisie Morgans ac hefyd i'r cyfeilydd. Fe fydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi ar Chwefror 4ydd am 2 o'r gloch pan fydd Mrs Judith Jenkins yn arddangos cardiau cyfarch a gemwaith. Croeso i aelodau newydd ymuno.

# Cellan

**Cydymdeimlo**

Estynnir cydymdeimlad dwys â Mrs Mary Jones, Hafan wedi colli ei gŵr, Myrddin. Hefyd i Dafydd a theulu Ffosyffin wedi iddo golli ei fam cyn y flwyddyn newydd.

**Gwellhad Buan**

Gwellhad buan iawn i Mr Lyn Jones wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Priodas Dda**

Llongyfarchiadau i Wayne a Hannah Jarman wedi eu priodas yn ddiweddar.

**Penblwyddi Arbennig**

Cyfarchion pen blwydd hwyr hefyd i Ann a Bleddyn, Cnwcyfallen wedi iddynt ddathlu eu pen blwyddi yn 60 dros y misoedd diwethaf - 'bys pas' amdani nawr!

Ac hefyd i Andrew Morgan, Yr Hen Reithordy ar gyrraedd ei ben blwydd yn hanner cant.

**Neuadd y Mileniwm**

Cofiwch am y noson ffilmiau reolaidd yn Neuadd y Mileniwm dros yr wythnosau nesaf. Gallwch fynd ar y wefan am fwy o wybodaeth: www.cellanmillenniumhall.co.uk

# Llanfair

**Gwellhad Buan**

Braf yw clywed fod Eleri Quan, Sŵn yr Afon, adref ac yn gwella ar ôl ei llawdriniaeth yn ysbyty Bronglais yn ddiweddar. Mae yn lwcus dros ben fod ganddi ddwy nyrs fach dda i edrych ar ei hol mor ofalus heb anghofio, wrth gwrs, y gwas mawr a'r gwas bach.

**Canu Carolau**

Gan fod yr eira mor ddwfn ar hewlydd y mynydd nid oedd yn bosib mynd allan i ganu ar y nos Lun, er mawr siom i'r grŵp a ddaeth ynghyd. Mentrwyd allan o amgylch y pentre a lawr Heol Llanfair ar y nos Iau, gan gloi'r noswaith nol yn y neuadd gyda chawl i'n cynhesu a phawb wedi mwynhau. Rhoddwyd yr arian a gasglwyd i gyd i elusen Tŷ Hafan.

Diolch yn arbennig i Gwyneth, Noyadd, am y cawl blasus dros ben ac i bawb a ddaeth â mins peis.

**Parti Nos Galan**

Cafwyd noson arbennig o ddathlu a chymdeithasu gyda llawer iawn wedi dod ynghyd ar noson neilltuol o oer, gyda'r rhan fwyaf wedi cerdded i'r neuadd.

Roedd y bwyd yn fendigedig fel arfer gyda phawb wedi cyfrannu a'r gerddoriaeth addas, diolch i Lesley, yn tynnu pawb i ddawnsio hyd oriau mân y bore. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y noswaith yn un mor llwyddiannus.

**Gwasanaeth Carolau**

Roedd yn siom fawr i lawer o bobol y pentre pan gafodd y gwasanaeth carolau ei ganslo oherwydd y tywydd. Diolch i'r rhai a oedd wedi trefnu'r gwasanaeth ac i'r rhai a oedd wedi cytuno cymryd rhan.

**Ffair Nadolig**

Er gwaethaf y tywydd oer a'r eira cynhaliwyd ein ffair Nadolig gyda thua saith o fyrddau yn gwerthu cymysgedd o nwyddau Nadoligaidd. Fel menter newydd roedd yn braf cael Seb, Tynant, yno yn gwerthu tryffls siocled wedi eu cynllunio a'u gwneud ganddo. Antur newydd a phawb wedi dwlu arnynt.

**Bowlio**

Cynhaliwyd noson agoriadol y bowlio yn y neuadd ar nos Sadwrn, Ionawr 15fed, gyda dros ddeg ar hugain wedi dod i chwarae. Trefnwyd y chwaraewyr mewn timau a'r holl beth wedi ei drefnu gan Al Heron, Siop Llanfair. Pan nad oedd y timau'n bowlio, trefnwyd gêmau eraill iddynt fel dominos, cardiau ac yn y blaen. Bydd noson debyg y cael ei chynnal bob yn ail nos Sadwrn hyd at ddiwedd mis Mawrth. Croeso cynnes i bawb

# Ffarmers

**Ras Hanner Marathon Caerdydd**



Cyflwynwyd siec o £3,000 i Uned Anghenion Arbennig ac Awtistig Y Myrddin gan deulu a ffrindiau un o'r disgyblion, Glyn Jones. Gweler yn y llun Gwyneth Richards yn cyflwyno siec i'r Prifathro, Mr Julian Parker. Rhedodd Gwyneth yn ras hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar. Casglwyd noddwyr gan deulu a ffrindiau, yn cynnwys rhieni disgyblion yr Uned a chynhaliwyd stondin gacennau. Derbyniwyd dros £2,200 yn ogystal â £750 oddi wrth Marian Jones a Banc Barclays drwy'r cynllun punt am bunt. Diolch yn fawr iawn iddynt ac i bawb am eu cyfraniad.

Yn y llun - Plant - Glyn & Luned Jones. Chwith i'r dde:- Julian Parker, Ann Jones, Jean Evans, Gwyneth Richards, Marian Jones, Eirlys Jones & Justin Jones

**Dyweddïo**

Estynnwn ein cyfarchion i Gareth Thomas, Bryndolau a Kelly Davies o Dregaron ar eu dyweddïad ddiwedd y flwyddyn, a dymunwn iddynt bob hapusrwydd yn y dyfodol.

**Anrhydedd**

Mae un o drigolion y pentref newydd cael ei enwi yn un o'r rheolwyr safle gorau yn y Deyrnas Gyfunol. Cyfeiriwn at Barrie Jones, Sŵn y Nant sydd yn gweithio i gwmni adeiladu Redrow, ac sydd wedi cael ei anrhydeddu â sêl rhagoriaeth gan y Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai, gan ei roi ymysg y rheolwyr safle gorau ym Mhrydain. Mae Barrie yn gweithio i Gwmni Redrow ers 10 mlynedd, ac nid dyma'r tro cyntaf iddo dderbyn canmoliaeth am ei waith. Mae eisoes wedi derbyn pedair dyfarniad am ansawdd, ac yn awr, dwy Sêl Rhagoriaeth am ei waith. Llongyfarchiadau, a phob dymuniad da am y dyfodol.

**Neuadd Bro Fana**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Neuadd ym mis Tachwedd, ac etholwyd y swyddogion canlynol am 2010 – 2011: Llywydd – Ethel Davies, Llys Helen; Cadeirydd – Judy Jenkins, Llys Awel; Is-gadeirydd – Irfon Davies, Ailfana; Trysorydd – Liz Thomas, Penywaun; Ysgrifennydd – Elfyn Davies, Troed y bryn. Swyddogion y Clwb Cefnogwyr yw Iris Evans, Maesuchaf ac Eirwen Thomas, Ty'nrheol.

Daeth aelodau Cyngor y Neuadd a'u partneriaid ynghyd ar nos Wener, yr 17eg o Ragfyr yn Y Drovers' Arms ar gyfer cinio blynyddol y Cyngor, a hynny er gwaethaf y rhew a'r eira. Cafwyd noson hwylus dros ben, gyda thipyn o sbri yn y cwis blynyddol a drefnwyd gan Ethel a Judy. Diolch iddynt hwy, ac i Ben a'i staff am noson hyfryd.

Yn anffodus, bu'n rhaid canslo y Cyngerdd a'r Noson Garolau a oedd i'w cynnal y nos Sul cyn y Nadolig oherwydd y tywydd eithafol. Yn wir, gwnaeth y tywydd effeithio ar nifer o weithgareddau yn ystod mis Rhagfyr a dechrau Ionawr. Bellach, mae trefniadau ar y gweill ar gyfer nifer o ddigwyddiadau dros y misoedd nesaf. Cynhelir Rasys Parlwr yn Y Drovers ar nos Sadwrn, y 26ain o Chwefror a Bwffe a Chyngerdd i ddathlu Gŵyl Ddewi ar nos Wener, y 4ydd o Fawrth yn y Neuadd. Bydd Cwmni Drama'r Cudyll Coch yn ymweld â ni yn y gwanwyn, ar nos Sadwrn yr 16eg o Ebrill (nodir fod y digwyddiad yma wedi newid o'r 22ain o Ebrill). Gwnewch nodyn yn eich dyddiadur!

Da dweud fod y gwaith o ail-leoli y Parc Chwarae wedi dechrau, gyda'r offer i gyd bellach yn ei le. Y cam nesaf yw codi'r ffens a gosod yr arwyneb diogelwch. Rhaid diolch i'r criw o wirfoddolwyr parod a fu wrthi yn paratoi y safle a gosod yr offer; i'r merched a ddarparodd fwyd ar eu cyfer, ac i drigolion yr ardal am eu cefnogaeth barod.

Fe sylwch wrth yrru heibio'r Neuadd fod paneli solar PV wedi eu gosod ar y to. Pwrpas y paneli yma yw cynhyrchu trydan ar gyfer defnydd y Neuadd, gydag unrhyw drydan ychwanegol yn cael ei fwydo i mewn i'r grid cenedlaethol. Roedd y Neuadd yn un o rhyw ddeuddeg o adeiladau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin i dderbyn cyllid i osod y paneli dan gynllun 'Cymunedau Di-Garbon' Ynni Sir Gâr. Cafodd y gwaith ei wneud gan Gwmni Thermal Earth o Gapel Hendre. Diolchwn i bawb sydd wedi bod ynghlwm wrth ddatblygu y prosiect yma.

**Ffair Grefftau Pumsaint**

Er gwaetha'r tywydd, cynhaliwyd y Ffair ar y 26ain a'r 27ain o Dachwedd ond yn anffodus dim ond ychydig iawn o bobl a fedrodd ddod i fwynhau'r croeso gwresog, cwpaned, mins peien a thipyn o sbri. Roedd y crefftau ar werth o'r safon uchel arferol. Llifodd y cyfraniadau ariannol a'r gwobrau raffl i mewn. Diolch i bawb am eu haelioni, a thrwy hynny, bydd Ymgyrch Canser y Fron Cymru ar ei hennill o £750. Os gwelwch yn dda, cofnodwch yn eich dyddiadur newydd ddyddiadau'r Ffair nesaf – 25ain a 26ain o Dachwedd 2011.

# Clwb Clonc

## Chwefror 2011

**£25 rhif 179 :**
Mrs Hannah Evenden,
10 Heol y Waun, Capel Dewi.

**£20 rhif 212 :**
Llion Herbert,
4 Cysgod y Coed, Cwmann.

**£15 rhif 199 :**
Mrs Doreen Harries,
21 Heol Hathren, Cwmann.

**£10 rhif 54 :**
Osian Davies,
Fronheulog, Llanwenog.

**£10 rhif 401:**
Jac Rees,
Maesllwyd, Cwmsychpant.

**£10 rhif 321 :**
Mrs Mair Jones,
Brynsiriol, Llanllwni.

# Pencarreg

**Taith Gerdded Plwyfolion Pencarreg**

Cafodd aelodau Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg daith arbennig ar ôl y rhew a'r eira dan arweiniad Dr Lloyd Jones. Man cychwyn y daith flynyddol oedd Llwynfallen ar droed Mynydd Pencarreg, ac yna cerdded am fferm Rhydowen a heibio olion fferm Llwyncuan oedd tua 113 erw yn ôl cyfrifiad 1871.



Wrth gerdded trwy glos Rhydowen, gwelwyd olion lle bu rhod ddŵr ar bynfarch sydd erbyn hyn yn cael defnydd arall, sef dyfrio'r gwartheg. Cael hanes wedyn am fwthyn Rhydowen Fach ac wedi ychydig ymchwil deall mai dynes a'i mab oedd yn byw yno ac mai gwniyddes Latai oedd hi; does dim sôn am yr hen gawr erbyn hyn.

Yna, aed ymlaen ar hyd y llethrau o dan fferm Derlwyn a mynd am bentref Pencarreg, heibio hen ffermydd Tai Cwm a Fronfelen a gweld golygfa arbennig o Ddyffryn Teifi. Llwybr y Plwyfolion cynnar fwy na thebyg oedd hwn i fynd i addoli yn Eglwys St Patrig ac yn ddiweddarach i'r plant fynd i'r ysgol. Mae'r Eglwys yn dyddio nôl i 1377.

Gwelwyd ôl traed nifer o adar a chreaduriaid yn yr eira a oedd yn parhau yn y cysgodion ac enghreifftiau arbennig o ysgubau'r wrach ar y fedwen. Wrth ymlwybro tuag at Bencarreg, cafwyd golygfa hollol newydd o Lyn Pencarreg yn gorwedd yn dawel islaw gyda thrwch o rew arno, gan nad oes dŵr yn llifo mewn nac allan ohono.

Braf oedd cael cerdded drwy un o'r ffermydd y bu rhaglen Dai Jones Cefn Gwlad yn ymweld â hi cyn cyrraedd pen y llwybr ger hen ysgoldy Pencarreg sydd erbyn hyn yn dŷ gwerthfawr. Agorwyd yr ysgol yn 1877 a'i chau yn 1969.

Cerdded yn ôl wedyn ar yr hewl heibio Blaenmas, Blaencarreg a dwy fferm Blaenbydernyn, a mwy na thebyg heibio olion Rhosyduon Tower, plasty ysblennydd ar ffurf castell a oedd yn eiddo i Syr William de Crespugny yn y ddeunawfed ganrif.

Diolch i'r cerddwyr selog am gerdded llwybrau'r Plwyf. Os byddwch yn cerdded y llwybr hwn, byddwch yn barod i fynd dros sticlau; yr unig anhawster yw diffyg cyfarwyddiadau ger y sticlau.

# Llanllwni

**C.FF.I Llanllwni**

Yn ystod yr holl dywydd gaeafol a gafwyd adeg y Nadolig fe wnaeth y clwb lwyddo i fynd allan i ganu carolau drwy'r cyfan. Aethom o amgylch yr ardal ddwy noson i ganu a chodi arian tuag at Feddygfa Llanybydder. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu at yr achos.

Ddydd Sadwrn 15 Ionawr 2011 cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Yn cystadlu yn y tîm siarad cyhoeddus dan 16 roedd Owain Davies (Cadeirydd), Ifor Jones (Siaradwr) a Betsan Evans (Diolchydd). Llongyfarchiadau i Owain am gael ei ethol yn eilydd i'r tîm a fydd yn mynd ymlaen i lefel Cymru. Yn y gystadleuaeth ddarllen i aelodau dan 14 oedd Betsan Evans, Betsan Jones a Ifor Jones wnaeth gynrychioli'r clwb a llongyfarchiadau i Ifor am gipio'r wobr am y darllenydd gorau ac yntau hefyd yn rhan o dîm Sir Gâr ar lefel Cymru. Llongyfarchiadau i Betsan Evans am gael ei hethol yn eilydd i'r tîm hefyd. Diolch i bawb a fuodd yn hyfforddi'r ddau dîm ar gyfer y diwrnod.

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Hanner Awr Adloniant y Sir a fydd yn cael ei chynnal ddiwedd mis Chwefror.

**Cylch Ti a Fi Llanllwni**

Croeso cynnes i famau / tadau, mamgus a thadcus, gofalwyr a phlantos bach alw draw am baned a chlonc. Mae cyfle i ymlacio tra bod y rhai bach yn mwynhau chwarae â'r teganau, peintio a llawer mwy bob bore dydd Iau o 9 -11 yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Cewch gyfle i gael cyngor a chyfarwyddyd gan wasanaethau fel Twf a'r Ymwelydd Iechyd gan bod yna westeion yn galw heibio'n aml.

**Melinau Gwynt Llanllwni**

Yn dilyn cais gan rai o drigolion y pentref ddiwedd mis Tachwedd, hwylusodd Cyngor Cymuned Llanllwni y broses o alw cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Gymuned Llanllwni. Pwrpas y cyfarfod oedd trafod y cais cynllunio arfaethedig gan gwmni Renewable Energy Systems (RES) i osod 21 tyrbein gwynt ar Fynydd Llanllwni, Mynydd Llanfihangel Rhos y Corn a Mynydd Llanybydder.

Cadeiriwyd y cyfarfod hwyluso gan y Cynghorydd Sir, Linda Davies Evans. Roedd Rhodri Glyn Thomas AC a'r Cynghorydd Peter Hughes Griffiths, arweinydd yr wrthblaid ar Gyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn bresennol, ynghyd â chynrychiolwyr lleol amryw fudiadau cadwriaethol ac amaethyddol.

Trwy benderfyniad unfrydol ffurfiwyd Achub Mynydd Llanllwni, Grwp Gweithredu i wrthwynebu'r cynllun dan gadeiryddiaeth John Jones, Hengae, Llanllwni. Mae ganddo flog wythnosol yn y Carmarthen Journal. Gellir cysylltu â John am wybodaeth bellach ar 01559 395309 johnallanjones@yahoo.co.uk

Ers ei ffurfio mae'r mudiad wedi cwrdd yn wythnosol yn Neuadd y Gymuned ac wedi gweld cynnydd cyson yn yr aelodaeth a'r mynychwyr. Mae croeso, bob amser, i ragor o gyfeillion yr achos.

Erbyn hyn mae cais cynllunio wedi ei gofrestru (E/23947) gyda'r Cyngor Sir am 21 o dwrbeini gwynt ar dir amaethyddol ac ar rostir mynydd agored sy'n dir y goron yng nghyffiniau Bryn Llywelyn, Llanllwni. Mae'r cais cynllunio am dwrbeini 127m/418 troedfedd o uchder. Mae'r cais yn cynnwys agor llwybrau newydd ar draws y mynydd, lledu ffyrdd gwledig, agor ffosydd i osod ceblau ynghyd ag adeiladu gorsafoedd newidyddion.

Yr adeilad uchaf yn Llanllwni ar hyn o bryd yw tŵr eglwys y plwyf. Mae hwnnw'n 59 troedfedd o uchder. Bydd y twrbeini felly 7 gwaith yn uwch na thŵr eglwys Llanllwni. Er mwyn i bawb sylweddoli beth yn union a fwriedir mae delwedd wedi'i chreu o dŵr yr eglwys a chyda chaniatâd y golygydd cewch weld hwnnw yn CLONC mis nesaf.

Os byddwch yn gwrthwynebu trwy lythyr, dylid nodi rhif y cais (sef E/23947) yn y llythyr a'i anfon at Eifion Bowen, Cyngor Sir Caerfyrddin, 40 Stryd Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LQ.

**Dosbarth Cadw'n Heini gyda Joan o J s Workout**

Mae yna groeso i chi ymuno â ni rhwng 8 – 9 bob nos Wener yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni Maesycrugiau. Mae'r dosbarth yn amrywio yn wythnosol ac mae ar gyfer pob lefel o ffitrwydd – ry'n ni'n cael tipyn o hwyl; £3.50 yw cost pob sesiwn.

**Ffair Nadolig**

Er gwaethaf y tywydd, bu Ffair Nadolig Cylch Meithrin Llanllwni yn Neuadd yr Eglwys ar brynhawn dydd Sadwrn 27ain o Dachwedd yn llwyddiant mawr. Cafwyd arddangosfa wych a syniadau hyfryd sut i baratoi cardiau gan Rosanne Joynson. Roedd yna amrywiaeth o stondinau yn cynnwys gemwaith, cynnyrch cartref, cardiau, nwyddau a llyfrau Cymraeg a gêmau i blant a chacennau. Gwnaeth y plant fwynhau cael eu hwynebau wedi eu paentio gan Meriel a diolch iddi am ei hamser ac am weddnewid y plant yn gymeriadau lliwgar. Diolchwn i bawb a gefnogodd y ffair; i Llywydd y Ffair, y Parch Suzy Bale am ei chyfraniad hael ac i bawb am eu cyfraniadau i'r stondinau a'r raffl. Gwnaeth plant yr ysgol ganu yn hyfryd i gloi'r prynhawn. Wrth gwrs, ma rhaid cofio diolch i Santa am alw draw gyda'i anrhegion i'r plant ac i Siop y Pentre a'r Co-op yn Llanbed am gyfrannu'r siocled.



Tîm pêl rwyd Ysgol Llanllwni a ddaeth yn ail yn Nhwrnament Pêl Rwyd yr Urdd cylch Llambed. Cawsant dipyn o lwyddiant gan ennill dwy gêm ond colli yn y gêm derfynol.

Aelodau'r tîm oedd Rhian G, Rhian T, Jasmine, Mair, Rebecca, Sinead a Carys. Da iawn chi, ferched.

**Disco St Ffolant**

Croeso cynnes i blantos mawr a bach yr ardal i ddod am bwgi yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni - Maesycrugiau ar y 19eg o Chwefror. Bydd yna luniaeth ysgafn a gwobrau i'w hennill. Bydd yr elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Llanllwni.

**Ysgol Llanllwni**

Croeso i Tomos Thomas a Christopher Lovell atom. Maent wedi setlo yn nosbarth y babanod ac yn hapus ymhlith eu ffrindiau newydd.

Hoffwn ddiolch i gartref yr henoed 'Cwm Aur' yn Llanybydder am y gwahoddiad a'r croeso a gawsom pan aethom i ganu carolau yn ystod eu diwrnod agored cyn y Nadolig. Diolch am y rhoddion a gafodd pob plentyn cyn mynd adre.

Diolch hefyd i bawb a roddodd arian yn ein bocsys pan aethom o gwmpas y pentref i ganu carolau gan godi £139 tuag at gronfa Adran Urdd yr ysgol.

Rydym yn dymuno'n dda i Mrs Moira Jones, un o staff yr ysgol sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio eich gweld nôl cyn hir.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Cymuned am y rhodd ariannol o fil o bunnoedd at gronfa'r ysgol.

**Bingo Cylch Meithrin Llanllwni**

Cynhelir Bingo Cylch Meithrin Llanllwni ar nos Lun y 7ed o Chwefror yn y Belle Llanllwni, i ddechrau am 8yh. Bydd yna wobrau ardderchog i'w hennill a lluniaeth ysgafn ar gael.

**Gwellhad**

Braf iawn yw croesawu Nancy Evans, Llannerch adref ar ôl cyfnod yn ysbyty Glangwili. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Hefyd danfonwn ein cofion at Mrs Mari Gaveston Knight, Honnington Hall yn dilyn ei hanffawd gartref yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda hefyd i Mrs Lilian Griffiths, Ffynnonddrain sydd ar hyn o bryd yng Nghartref Argel, Tre Ioan, Caerfyrddin ar ôl iddi dreulio peth amser yn Ysbyty Glangwili adeg y Nadolig.

**Diolch**

Dymuna Elfryn a Julie, Delfryn ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gawsant ar enedigaeth y mab bychan.

**Pwyllgor yr Henoed**

Cyn y Nadolig bu aelodau'r Pwyllgor yn brysur yn dosbarthu rhodd o £10 i bob un yn y plwyf sydd wedi cyrraedd 70 mlwydd oed. Eleni yr oedd 91 yn deilwng o'r rhodd, gyda'r gobaith eu bod wedi cael rhyw bleser ychwanegol dros y Nadolig.

Y mae yn mynd yn fwy anodd bob blwyddyn codi'r arian ac mae'r diolch yn fawr am gyfraniadau o £100 yr un oddi wrth Teulu Cross Roads, Tom Bowen, Pwllglas a Tommy a Margaret Davies, Tegfan Garage. Yn ychwanegol cafwyd punt y pen [£91] gan Gyngor Sir Caerfyrddin, heb anghofio yr elw o tua £1200 a wnaed o'r Bingo a'r Raffl a gynhaliwyd yn yr Hydref. Y mae'r ychydig aelodau sydd ar y pwyllgor erbyn hyn yn bensiynwyr eu hunain a gwneir apêl unwaith eto am ragor i ymuno â'r Pwyllgor er mwyn cadw'r traddodiad i fynd.

# Llanbedr Pont Steffan

**Cylch Cinio**

Mae cyfarfod mis Rhagfyr a'r wledd draddodiadol yn achlysur cofiadwy a roedd y cyfarfod eleni yn bleserus iawn ym mhob ystyr. Y gwestai a groesawyd yn gynnes iawn gan y Llywydd, y Cyng. Hag Harris oedd Ms. Meri Huws, Is-Ganghellor (Arloesi, Cymuned a Sgiliau) prifysgol newydd Y Drindod Dewi Sant.

Cyflwynodd y siaradwraig ei hunan fel "crwydryn" gan gyfeirio yn gyntaf at ei magwraeth. Symudodd ymlaen i sôn am gyfnodau yn ei gyrfa a dylanwadau o bwys iddi. Fe'i penodwyd i'w swydd bresennol o Brifysgol Cymru, Bangor ble roedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor rhwng 1999 a 2008. A hithau yn enedigol o Gaerfyrddin, yr oedd yn falch iawn dychwelyd i'r sir. Cafodd ei phenodi yn Gadeirydd Bwrdd yr Iaith yn 2004.

Y nod a'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol i'r brifysgol newydd oedd hanfod ei chyflwyniad. Mae'r cydweithio a'r cynllunio ar y cyd gyda cholegau addysg bellach yn siroedd y De Orllewin a sefydlu cysylltiadau agos gyda Phrifysgol Metropolitanaidd, Abertawe, yn gamau pwysig ymlaen at wireddu'r weledigaeth. Pwysleisiodd hefyd natur y cyfleoedd sydd ar gael drwy'r Brifysgol - gwaith, astudio, cyfleoedd dysgu hyblyg a dwyieithog, ehangu mynediad i fyfyrwyr, ymchwil, hybu datblygiadau yn y gymuned a datblygu cyrsiau newydd. Eisoes bu'n cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr busnes y dref ynglŷn â'r hyn y gall y brifysgol ei gynnig. Bellach, ymysg nifer o ddatblygiadau cyffrous, mae cynlluniau i sefydlu canolfannau hyfforddiant yn Llambed mewn meysydd megis gofal a iechyd yng nghefn gwlad ac, yn y flwyddyn newydd, Academi Treftadaeth.

Y Bnr. John Phillips a gynigiodd bleidlais o ddiolch. Pwysleisiodd bod y datblygiadau i'w croesawu o safbwynt y dref a'r gymuned, y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Yr Is-Lywydd, Y Bnr. Elfan James oedd â gofal am gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd ar 6ed Ionawr a'r siaradwr gwadd a groesawyd yn gynnes iawn ganddo oedd y Bnr. John Glant Griffiths MBE. Yn enedigol o Langeitho ond bellach yn byw yn Lledrod, fe anrhydeddwyd Mr Griffiths yn 2002 am ei wasanaeth i'r Comisiwn Coedwigaeth.

"Rhyfeddod y goedwig oddi mewn ac o amgylch" oedd thema ei sgwrs, ac yntau yn feistr ar y testun, cafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni. Gyda'i gasgliad gwych o sleidiau, fe'n tywyswyd ganddo yn gyntaf o amgylch mynachlog Ystrad Fflur, ardal coedwig Pantyfedwen, a chawsom ambell hanesyn, megis stori am y gŵr dienw a gladdwyd yno.

Ymlaen at Stad yr Hafod wedyn, rhan o diroedd Ystrad Fflur ers talwm. Ddiwedd y 18fed ganrif daeth yn eiddo Thomas Johnes ac ef oedd yn gyfrifol am ddylunio'r Stad yn y dull pictiwrèsg. Bellach, Partneriaeth Cadwraeth yr Hafod sydd â gofal am y stad ac am y gwaith adfer sy'n digwydd yno. Pleser oedd cael ein tywys ar hyd y rhwydwaith o lwybrau coetir a sefydlodd Thomas Johnes a gweld sut y ceisiodd sicrhau golygfeydd gwahanol o'r tirwedd unigryw. Mae atyniadau'r Stad yn hynod: y coedwigoedd, rhaeadrau, pontydd, yr hen stablau, yr eglwys, yr hen rewgell unigryw a bellach, y cyfleusterau i ymwelwyr, y cyfan yn tystio i gampwaith Thomas Johnes.

Diolchwyd i'r siaradwr gan Y Bnr. Ceri Davies a gyfeiriodd ato fel hanesydd, naturiaethwr a gwarchodwr y bywyd Cymreig.

**Gyrfa Chwist**

Cartref Hafan Deg Nos Fercher y 5ed o Ionawr cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Gwendoline Jones, Llanybydder yn arwain a Gwen Davies, Llanwnnen wrth law.

Enillwyr fel a ganlyn – Dynion: 1af – Peter Jones, Llambed, 2il – Dai Davies, Pensinrig, Cellan, 3ydd – Maggie Vaughn, Brohenllys, Felinfach. Merched: 1af – Jean Evans, Ciliau Aeron, 2il – Nana Davies, Stryd Newydd, Llambed, 3ydd – Catrina Davies, Aberaeron. Carden Miniature: Dynion – Ray Jenkins, Llanybydder, Merched: Gwen Davies, Llanwnnen. Bwrw Allan – Enillwyr: Maggie Vaughn, Felinfach a Mary Davies, Maesnewydd, Cwmsychbant, Ail – Beryl Roach, Brohenllys, Felinfach a Gwendoline Jones, Llanybydder.

Enillwyr 19 Ionawr fel a ganlyn – Dynion: 1af – Maggie Vaughn, Brohenllys, Felinfach, 2il – Ray Jenkins, Llanybydder, 3ydd – Mai Williams, Tregaron, Merched: 1af – Nana Davies, Stryd Newydd, Llambed, Cydradd 2il – Margaret Jones, Pentrebach, Llambed a Catrina Davies, Aberaeron. Carden Miniature: Dynion – Edward Lockyer, Hafan Deg, Merched – Dilwen Roderick, Llambed. Bwrw Allan: Enillwyr – Brian James, Trelech a Gwendoline Jones, Llanybydder, Ail – Beryl Roach, Brohnellys, Felinfach a Mai Williams, Tregaron. Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Chwefror ar nos Fercher 2il a'r 16eg. Croeso cynnes i bawb.

**Llwyddiant**

Yn dilyn eu llwyddiant yn cipio'r wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanerchaeron mae aelodau Côr Ysgol y Wern, Caerdydd dan hyfforddiant Mair Long, gynt o Haulfryn, Maesyllan wedi cael profiadau gwych. Bu'r plant yn rhan o'r canu cefndir ar sengl Nadolig neb llai na Gio Compario sy'n adnabyddus i bawb ohonom rwy'n siŵr – cynhyrchwyd gan yr enwog Warner Brothers. Yn ogystal â hyn cawsant gyfle arbennig hefyd i ymddangos yn y fideo a gynhyrchwyd mewn stiwdio anhygoel. Roedd hwn yn brofiad cyffrous a bythgofiadwy i'r plant a'u harweinydd. Yna i goroni'r cyfan bu'r côr yn perfformio gyda Wynne Evans sy'n portreadu Gio mewn cyngerdd Nadolig, gyda Chôr Caerdydd hefyd yn cymryd rhan. Ym mis Ionawr lansiwyd Mesur y Gymraeg a basiwyd gan y Cynulliad yn Rhagfyr, a hynny yn Ysgol y Wern gyda'r dirprwy Brif Weinidog Ieuan Wyn Jones a'r Gweinidog Treftadaeth Alun Ffred Jones yn bresennol. Cafodd y côr yr anrhydedd a'r pleser o ddiddanu'r pwysigion. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cystadleuaeth gorawl i ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg Caerdydd a'r fro. Cipiwyd y wobr gyntaf mewn cystadleuaeth arbennig iawn gan Ysgol Y Wern a derbyniodd y côr ganmoliaeth aruchel am ddatganiadau swynol, hynod gerddorol a disgybledig iawn. Llongyfarchiadau calonnog i Mair a'r côr ar eu llwyddiant a phob dymuniad da iddynt i'r dyfodol. Mae'r côr ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cyngerdd yn Neuadd Dewi Saint i godi arian at Barnardos.

**Diolch**

Dymuna Mrs Nel Phillips, 19 Ffynnonbedr ddiolch yn gynnes iawn i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig. Diolch o waelod calon i chi gyd.

**Llwyddiant Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Hanna James, Ynysfaig, Stryd Newydd ar ei llwyddiant yn pasio arholiad piano Gradd 4 dan nawdd Coleg Brenhinol Llundain. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol.

**Cydymdeimlad**

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf.

**Gwellhad Buan**

Da yw clywed bod Mrs. Catherine Thomas, Hafdre, Stryd Fawr, yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Glangwili. Mae Catherine yn treulio ychydig wythnosau yn Hafandeg ac yn gobeithio mynd adre cyn bo hir. Pob dymuniad da i chi oddi wrth eich ffrindiau i gyd yn Llambed.

**Noddfa**

Er gwaetha'r anawsterau daeth cynulliad teilwng ynghyd i ddathlu Gŵyl y Geni nos Iau 23 Rhagfyr yng nghwmni aelodau'r Ysgol Sul gyda chymorth ieuenctid Noddfa, Caersalem a Bethel. Anghofiwyd am yr oerni y tu allan a llwydwyd i greu awyrgylch hyfryd a chynnes i'r gwasanaeth wrth ymlwybro i Fethlehem ar lafar ac ar gân a phob un o'r 24 a oedd yn cymryd rhan yn cyflawni eu gwaith yn ardderchog. Roedd cymeriadau'r geni i gyd yn serennu ac yn wledd i'r llygad ac i'r glust. Hefyd cafwyd ymweliad gan Siôn Corn a bu'n hael iawn eleni eto. Diolch hefyd i Alun ac Eifion am eu rhoddion o ffrwythau i'r plant yn ôl eu harfer. Hyfryd oedd clywed Janet a chriw o'r plant yn sgwrsio â Hywel Gwynfryn ar raglen Terwyn Davies ar Radio Cymru. Bu'r plant hefyd yn canu nifer o garolau. Ymwelodd Hywel â Noddfa yn ystod ei daith trwy Gymru a chafwyd llawer o hwyl yn ei gwmni. I ddechrau blwyddyn newydd o weithgareddau bu aelodau'r Ysgol Sul yn diddanu'r Henoed yn Hafandeg. Roedd y preswylwyr wrth eu bodd yn gwrando ar adloniant amrywiol a safonol. Wrth ddiolch, roedd Mrs Dilys Megicks, y Pennaeth, yn uchel iawn ei chanmoliaeth am gyfraniad y plant a oedd wedi rhoi pleser mawr i'r Henoed. Cyn troi tuag adre hyfryd oedd cymdeithasu tra'n mwynhau diod a danteithion ysgafn. Ar Sadwrn 15 Ionawr bu'r plant a'u rhieni ynghyd ag ambell Fam-gu yn y Panto yn Neuadd y Celfyddydau, Aberystwyth. Roedd Cinderella yn gynhyrchiad gwych llawn hwyl a sbri a'r cyfan mor broffesiynol. Cafwyd cyfathrebu arbennig rhwng y criw a'r gynulleidfa a'r plant yn ymateb mor frwdfrydig. Roedd y set yn hynod o drawiadol a lliwgar iawn ac roedd hiwmor y ddwy chwaer salw yn eu gwisgoedd anhygoel yn peri i ni gyd fod yn ein dyblau trwy gydol y perfformiad. Roedd pawb o'r lleiaf at yr hynaf wedi joio mas draw. Dymuna Janet ddiolch yn wresog am yr anrhegion a dderbyniodd oddi wrth yr Ysgol Sul a datgan ei gwerthfawrogiad diffuant i'r aelodau am eu ffyddlondeb, i'r bobl ifanc am eu teyrngarwch ac i Llinos a'r rhieni i gyd am eu cydweithrediad parod a'u cymorth mawr. Yr ydym yn parhau i gwrdd ar nos Wener o 4 hyd 5 o'r gloch ac mae'r amser newydd yn gyfleus i bawb ac yn sicrhau dyfodol Ysgol Sul Noddfa. Trefnir rota ar ddechrau bob tymor ac mae'r mamau ac ambell dad hefyd yn cymryd eu tro i helpu yn wythnosol. Mae'r trefniadau yma yn llwyddiant mawr. Edrychwn ymlaen at dymor arall o gydweithio hapus.

Dyddiadur: 3 Ebrill Oedfa'r Ifanc – Noddfa, 5 o'r gloch, 10 Ebrill

# Llanbedr Pont Steffan

– Rihyrsal Bedyddwyr cylch Caio a Llambed – Salem Caio 3.30, 8 Mai
– Rihyrsal y Bedyddwyr cylch Caio a Llambed – Caersalem 2.00, 15 Mai
– Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llambed – Noddfa, 2.30 a 6.00.

**Merched y Wawr Cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch**

Cafodd Merched y Wawr Cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch noson ddiddorol iawn yng nghwmni eu gŵr gwadd, Mr. Donald Morgan, Llanrhystud yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Estynnodd y Llywydd Mrs. Mary Davies, groeso cynnes i Donald, ac hefyd i westeion Cangen Cylch Aeron a oedd wedi eu gwahodd i'r noson i fwynhau gweld Donald yn gosod blodau Nadolig. Mae Donald yn adnabyddus fel gosodwr blodau o fri ac mae ganddo siop flodau yn Llanrhystud, sef 'Siop y Bedol'. Fe ddechreuodd Donald osod blodau yn ifanc pan oedd tua 15 oed. Yn ystod y noson fe dalodd deyrnged i'w hyfforddwyr am ei helpu i ddysgu'r grefft. Dros y blynyddoedd mae wedi ennill mewn nifer fawr o sioeau lleol a hefyd mewn sioeau mawr fel Ffair Aeaf Llanelwedd a sioe flodau fawr Chelsea. Cafwyd noson ddiddorol iawn a bu Donald yn arddangos a chynllunio thema wahanol mewn pedwar trefniant trwy ddefnyddio blodau a phlanhigion mewn modd artistig a chreadigol. Cafodd yr aelodau fwynhad mawr wrth weld y trefniadau prydferth a bu pedair o'r aelodau yn ffodus iawn i ennill trefniant blodau yr un yn y raffl a dynnwyd ddiwedd y noson. I gloi'r noson cafwyd bwffe bys a bawd a diod blasus wedi eu paratoi gan aelodau'r pwyllgor. Diolchodd croesawraig y noson, Mrs. Eryl Jones i Donald am ddod a diddori yr aelodau â'i arddangosfa wych. Diolchodd hefyd i'r aelodau a oedd wedi paratoi'r bwyd a'r diod, a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Diolchodd Bethan Lloyd ar ran Cangen Aeron. Yng nghyfarfod y gangen ddiwedd y noson diolchodd Mary i'r aelodau a oedd wedi bod yn canu carolau yng nghartref Henoed Hafandeg ac i'r aelodau a oedd wedi bod yn cystadlu yn y Ffair Aeaf. Enillydd y raffl misol oedd Mrs. Glesni Thomas. Wrth gloi'r cyfarfod dymunodd Mary Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau.

Croesawodd y Llywydd Mrs. Mary Davies yr aelodau yn ôl i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yn Ionawr 2011 ac estynnodd longyfarchiadau i Dilwen, Margaret ac Ann a'u teuluoedd ar enedigaeth wyrion a wyres newydd, a dymunodd ben-blwydd hapus i Noleen. Enillydd y raffl misol oedd Gwynfil. Ar ôl y cyfarfod croesawodd Mary y gwestai am y noson sef Mrs. Janice Thomas sydd yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Llanerchaeron. Mae'n Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr ac yn byw yng Nghiliau Aeron gyda'i gŵr Iwan a'u tri phlentyn. Bu Janice yn rhoi hanes Llanerchaeron a gwelwyd bod yr holl waith wedi ei gyflawni'n safonol iawn ac wedi golygu bod Llanerchaeron wedi ei adfer i'w ysblander gwreiddiol. Ddiwedd y noson rhoddodd Mary bleidlais o ddiolch i Janice am ddod a diddori'r aelodau trwy ddangos yr holl waith da a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Eiliwyd Mary gan Mrs. Dorothy James ac ategodd yr hyn roedd Mary wedi ei ddweud a sôn pa mor ffodus yr ydym i gael lle diddorol a hyfryd fel Llanerchaeron ar stepen y drws. Diolchodd Mary hefyd i'r aelodau a oedd wedi paratoi'r te a'r bisgedi hyfryd. Bydd y cyfarfod nesaf ar y 14 o Chwefror gyda noson yng ngofal y Llywydd, Mrs. Mary Davies.

**Urdd y Benywod Brondeifi**

Cafwyd noson agored hwylus ar nos Iau, Tachwedd 25ain gan "Cathod Ceitho". Fe'u croesawyd a'u cyflwyno gan ein Llywydd Beti Evans. Parti o naw o ferched a'u cyfeilydd Howard Morse yw'r rhain. Ffurfiwyd y grŵp o ardal Llangeitho tua saith mlynedd yn ôl gan Howard a Meima Morse ar ôl iddynt ddychwelyd o'r Rhondda i bentref genedigol Meima. Cawsom ein diddanu gyda chaneuon traddodiadol, adroddiadau digri a sgetsys doniol. Gorffennwyd y noson yn hwyliog gyda phawb yn canu "Moliannwn".

Talwyd diolchiadau gwresog ac addas iawn gan Gwenda Davies. ac enillwyd y raffl gan Mary Davies.

**Cymdeithas Hanes**

Daeth cynulleidfa dda i'r Hen Neuadd i gyfarfod mis Ionawr gyda llawer o wynebau newydd eto ac fe'u croesawyd gan Selwyn Walters, y Cadeirydd. Roedd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda Sian Jones yn cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg.

Andrew Jones, Felindre oedd siaradwr y noson a chafwyd orig y tu hwnt o ddiddorol yn ei gwmni. Thema'r noson oedd 'Felindre a'i gysylltiadau trefol'. Gyda chymorth ei wraig Pat yng ngofal y cyfrifiadur, gwelwyd lluniau o'i gyndeidiau a fu'n byw ar y fferm, ynghyd â'r goeden deuluol, honno'n mynd nôl at deulu'r Cilgwyn yn yr ail ganrif ar bymtheg. Daeth nifer o'r disgynyddion yn bobl flaenllaw yn nhre Llambed.

Yma yn 1908 y ganwyd Arnold Davies, sylfaenydd busnes cyfreithwyr yn y dre. Yma hefyd y ganwyd Arnold Rees, yr arwerthwr. Roedd yna gysylltiad teuluol â T.L. Davies, sylfaenydd Gwasg Caxton.

Ar daflen arwerthiant yn Felindre yn 1907, gwelwyd amserau'r trenau er mwyn i'r prynwyr fedru cyrraedd mewn pryd gydag enwau'r ceffylau a'u tras mewn catalog. Cawsom glywed bod rhai hyrddod wedi cael eu gwerthu i Ddwyrain yr Affrig.

Roedd gan Martin Jones, gwas yn y Felindre o 1934 hyd at 2000, ddiddordeb mawr mewn tynnu lluniau, a gwelwyd nifer ohonynt gan Andrew. Roedd lluniau o sioe a mart Llambed, a'r cymeriadau a oedd yno, yn amlwg iawn. Gwelwyd y tu fewn i siopau Nun Davies, Megick's, siop a garej Cwmann, garej Auto Services - lle saif y Co-op yn awr- ynghyd â llawer o gymeriadau'r dref sydd bellach wedi mynd. Ond diolch bod cofnod ohonynt mewn llun.

Caed ymateb da gan y gynulleidfa, llawer yn cofio aml i berson a welwyd ar y sgrin, a chafwyd cryn ddyfalu pwy oedd ambell un arall.

Diolchwyd yn ddidwyll iawn i Andrew a Pat gan Selwyn Walters. Pwysleisiodd eto bwysigrwydd cofnodi a chadw mewn cof hen hanes Llambed a'r fro. Diolchodd hefyd i Sian am y gwasanaeth cyfieithu.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 15fed , yn Adeilad Caergrawnt, pan fydd Loveday Lewes Gee yn siarad am Llanllŷr. Croeso cynnes i bawb.

**Capel Brondeifi**

Ar ôl cyfnod o dywydd caled iawn a effeithiodd ar lawer iawn o'n gwasanaethau mae'n braf dod nôl i drefn eto.

Yn anffodus bu i'r festri ddioddef oherwydd y tywydd rhewllyd ond gobeithir y bydd y gwaith adnewyddu yn dechrau yn ystod yr wythnos nesaf ac y bydd defnydd llawn ohoni eto yn fuan. Diolch i bawb a fu wrthi yn cynorthwyo gyda'r gwaith clirio pan ddarganfuwyd y broblem ac i'r contractwyr am eu sylw buan yn delio gyda'r gofynion brys. Diolch hefyd i Delyth Jones am gynnig defnydd o'r Pantri i gynnal yr Ysgol Sul dros dro.

Bu llawer o lwyddiannau ymysg aelodau a chysylltiadau'r capel yn ddiweddar a llongyferchir pawb ar eu llwyddiant boed mewn sioeau, yn y gweithle neu yn academaidd. Braf oedd clywed Gwion, mab Trefina ac Eirian, yn cymryd rhan drwy weddïo ar y radio fore'r Nadolig yn y gwasanaeth o gapel Y Priordy, Caerfyrddin a braf hefyd yw clywed am lwyddiant Clive Evans, Brynmaen sydd wedi derbyn swydd fel Rheolwr Prosiectau gyda Chyngor Norwich. Pob lwc gyda'r swydd newydd, Clive.

Mae'n galonogol cofnodi fod Siop y Smotyn Du wedi bod yn eithaf prysur ers ei hagor ym mis Tachwedd a hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi yn ystod y cyfnod hwn ac am y sylwadau caredig a'r balchder fod y siop wedi ailagor. Bu gwerthiant y llyfr 'Hiwmor Pregethwr' yn anhygoel o uchel dros Gymru - yr ail uchaf yn ystod mis Tachwedd ac mae wedi sicrhau elw sylweddol o £500 i goffrau'r siop.

Cydymdeimlir yn fawr iawn â Mrs Phyllis Jones, Cilgell yn ei siom o golli ei chwaer yng nghyfraith, Mrs Dilys Jones, ddechrau'r flwyddyn ar ôl dioddef cystudd hir. Nid yw Phyllis Jones ei hun yn mwynhau yr iechyd gorau ar hyn o bryd a dymunir gwell

iechyd iddi yn fuan iawn. Yr un yw'r dymuniad i Mrs Betsi Jones, 8 Maesyfelin sydd wedi bod yn yr ysbyty ers rhai misoedd ond yn gwella yn raddol yn Ward Padarn, Glangwili; i Mrs Gwenda Wilson (chwaer David Morgan) sydd ar hyn o bryd mewn ysbyty yn Llundain, ac i bawb arall hefyd sydd yn dioddef mewn unrhyw fodd.

Mae rhai o'r swyddogion wedi gwneud arolwg o'r fynwent ac wedi adrodd yn ôl i'r capel gan ddynodi fod nifer fechan o'r cerrig beddau angen eu sefydlogi ac eraill heb unrhyw gofnod wedi ei osod arnynt. Bwriedir cysylltu â'r teuluoedd perthnasol yn ystod y misoedd nesaf i drafod y materion yma.

Mae'r Negesydd diweddara wedi ymddangos, a'r Sul olaf ym mis Ionawr bydd y gwasanaeth am 10.00 y bore; ar y 6ed o Chwefror am 2.00 yng nghwmni'r Parch Alun Wyn Dafis ac yna ar y 13eg o Chwefror am 10.00 y bore gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu.


WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.


# Llanwnnen

**Merch fach**

Llongyfarchiadau i Heulwen a Barry Evans, Ffrwd ar enedigaeth merch fach ar ddechrau mis Ionawr, chwaer fach i Cadi a Mari.

# Cadwyn Cyfrinachau

**Enw:** Nia Milcoy
**Oed:** 23
**Pentref**: Olmarch
**Gwaith:** Swyddog Adnoddau Dynol, Dunbia, Llanybydder
**Partner:** Stephen Morris
**Teulu:** Mab blwydd oed o'r enw Joshua.

**Unrhyw hoff atgof plentyndod.**
Chwarae yn Afon Teifi ym mhentre Llanwnnen ar wyliau haf!

**Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.**
Art Attack.

**Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.**
Galw pawb sydd yn hŷn yn "Chi" a dweud "helo" wrth bawb bob tro.

**Y CD cyntaf a brynest di erioed?**
Spice Girls.

**Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet ti eisiau bod ar ôl tyfu?**
Milfeddyg!

**Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?**
Eistedd gyda'r moch ar ffarm mam-gu pan oeddwn yn 3 oed.

**Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?**
Prynu set o emau Aur Clogau ar fy mhen-blwydd.

**Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?**
Pan wyf gyda Joshua a phan wyf yn merlota ar gefn y ceffylau ar ddiwrnod hela Tregaron!

**Beth yw dy lysenw?**
Milcoy!!

**I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?**
Cameron Diaz!



**Y peth gorau am yr ardal hon?**
Pawb yn serchog ac yn helpu ei gilydd.

**Y peth gwaethaf am yr ardal hon?**
Parcio yn Llambed!

**Pa iaith wyt ti'n ei defnyddio gyntaf?**
Cymraeg.

**Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?**
Prynu car newydd!

**Pryd lefaist ti ddiwethaf?**
Diwrnod pen-blwydd cyntaf Joshua.

**Pryd est ti'n grac ddiwethaf?**
Pob dydd pan wyf yn rhedeg yn hwyr i'r gwaith ac mae car smala tu blaen!

**Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?**
Pan brynes ddilledyn newydd a dweud wrth 'ngahriad mod i wedi ei gael ers blwyddyn!

**Am beth wyt ti'n breuddwydio?**
Ennill y Loteri.

**Beth oedd yr eiliad falchaf i ti'n broffesiynol?**
Cael fy swydd bresennol.

**Ac yn bersonol?**
Pan gefais fy ngradd.

**Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?**
Digon o make up!

**Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?**
Dyw bywyd byth yn berffaith.

**Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.**
Pan gefais Joshua.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Gonest, ffrind a ffyddlon.

**Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?**
Gonest.

**Pa gar wyt ti'n gyrru?**
Twp!

**Beth yw dy hoff air?**
No way!

**Beth yw dy hoff wisg?**
Cardigan hir, leggins a bŵts.

**A'th hoff adeilad?**
Hen dŷ ffarm mam-gu fach.

**Beth yw dy ddiod arferol?**
Baileys ac iâ.

**Beth wyt ti'n ei ddarllen?**
Home magazines!

**Beth yw dy hoff arogl?**
Coco Chanel.

**Sut wyt ti'n ymlacio?**
Mynd i'r bath hefo cylchgrawn a gwydraid o win.

**Sawl ffrind sydd gennyt ti ar Facebook?**
Tua 200.

**Pwy yw'r person enwocaf ar dy ffôn symudol?**
Gwawr Jones – Meysydd!

**Beth fyddet ti'n ei achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?**
Lluniau'r teulu a fy handbags i!

**Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?**
Telyn.

**Ble fyddi di mewn deng mlynedd?**
Yn berchen siop esgidiau yn Llambed.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
**Rhodri Williams,** Cellan

## Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
**Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc**
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 3 | | | | 5 | 4 | 2 |
| | 8 | | | | | | | 1 |
| | | 2 | | | 5 | | | 9 |
| | | | 3 | 9 | | | | |
| | 9 | | 6 | | 8 | | 2 | |
| | | | | 2 | 4 | | | |
| 3 | | | 8 | | | 1 | | |
| 4 | | | | | | | 6 | |
| 7 | 1 | 9 | | | | 4 | | |

**Atebion Swdocw mis Rhagfyr:**
Llongyfarchiadau i **John D Evans, Rampant Lion, Capel Dewi;** a diolch i bawb arall am gystadlu: Ron Jones, Penbryn, Llanbed; Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder; P Buckley, Bryntegwel, Llanbed a Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin.

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 5 | 2 | 6 | 1 | 3 | 4 | 9 | 8 |
| 4 | 1 | 3 | 9 | 8 | 5 | 6 | 7 | 2 |
| 9 | 8 | 6 | 4 | 2 | 7 | 1 | 5 | 3 |
| 2 | 4 | 1 | 3 | 9 | 8 | 5 | 6 | 7 |
| 5 | 6 | 8 | 2 | 7 | 4 | 3 | 1 | 9 |
| 3 | 9 | 7 | 1 | 5 | 6 | 8 | 2 | 4 |
| 8 | 3 | 5 | 7 | 6 | 2 | 9 | 4 | 1 |
| 6 | 2 | 9 | 8 | 4 | 1 | 7 | 3 | 5 |
| 1 | 7 | 4 | 5 | 3 | 9 | 2 | 8 | 6 |

# O'r Cynghorau Bro



**Cyngor Bro Llanllwni**

Cadeirydd: Emyr Evans; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans

Cyfarfu'r Cyngor ar 10 Ionawr 2011 yn Neuadd Gymundol Llanllwni

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Croesawyd y Cwnstabl Rhydian Jones i'r cyfarfod, ac er nad oedd unrhyw achosion penodol wedi codi o fewn y plwyf, cafwyd trafodaeth fywiog am y toriadau arfaethedig yng nghyllid yr heddlu â'r posiblrwydd o gau gorsaf Pencader. Cyfarwyddwyd y Clerc i ysgrifennu at Awdurdod yr Heddlu yn datgan pryder y Cyngor Bro am ddyfodol plismona cymunedol ac am ddyfodol Swyddfa Pencader.

Derbyniwyd amcangyfrif y o £900.50 am y gwaith cyfreithiol o drosglwyddo'r Cae Chwarae i ofal y Cyngor Bro. Penderfynwyd symud ymlaen â'r gwaith. Cadarnhawyd bod Tom Jones wedi archwilio'r maes chwarae â'r adnoddau yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Roedd y gwaith wedi ei gwblhau. Cadarnhawyd gan Linda Evans bod cyflymdra o 30mya yn mynd i gael ei osod o riw Gwarallt heibio i'r ysgol, cyn bo hir. Cadarnhawyd gan Linda Evans bod y postyn fflachio yn mynd i gael ei osod yn ei le priodol yn y dyfodol agos.

Cadarnhawyd gan Linda Evans, bod swyddogion y Cyngor Sir i ymweld â'r safle arfaethedig ddiwedd mis Ionawr neu ddechrau mis Chwefror.

Roedd Statmatrix wedi cysylltu â'r Clerc yn nodi y bydd cyfarfod i'r Cynghorau Cymuned ddydd Iau 3 Chwefror 2011 yn Brechfa. Byddai manylion pellach yn dilyn. Wedi trafodaeth fanwl penderfynodd y Cynghorwyr ymateb i'r cynlluniau arfaethedig ar Fynydd Llanllwni cyn y dyddiad cau ar 26 Chwefror 2011.

Penderfynwyd cefnogi Ysgol Gynradd Llanllwni, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru, CFFI Sir Gâr, Macmillan, Pwyllgor Henoed Llanllwni.

Byddai'r Clerc yn cysylltu er mwyn sicrhau bod y bocs postio ger Blaencwmdu yn cael ei ailosod.


Byddai'r Clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i nodi cyflwr drwg hewl Pont y Rheilffordd - Gwarcwm – Ffynnonddrain.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb ac am eu brwdfrydedd dros y plwyf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 14 Mawrth 2011.

## CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2011

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 3 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un**. Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!



Cofiwch mai un llythyren yw DD, FF, L

**AR DRAWS**

**1** Enw record gan Edward H. Dafis ar glawr llyfr *Non* (2, 5, 1, 7)
**8** Llyfr gan Hilma Lloyd Edwards, _ _ _ _ _ *yn y Tŷ* (5)
**9** Llyfr bwrdd gan Charlotte Stowell, *Samuel yn Helpu _ _ _* (3)
**10** D J Donci Bonc yw enw'r anifail hwn yn *Bili Boncyrs a'r Planedau* (4)
**13** Enw cyntaf awdur *Drwy Lygad y Camera* (3)
**14** Nofel wedi'i lleoli ym Mhen Llŷn, *'Ac yna Clywodd _ _ _ y Môr'* (3)
**16** Hunangofiant John Meredith (2, 3, 5)
**18** Enw cyntaf awdur testun *Llyfr y Ganrif* a gyhoeddwyd yn 1999 (4)
**21** Awdur 36 ar draws (4, 3)
**23** Drama gomedi gan Tony Llewelyn, _ _ _ _ *a Rhemp* (4)
**25** Un o gampweithiau John Davies (5, 5)
**28** Hunangofiant yr actores Buddug Williams, *Y Ferch o'r _ _ _* (3)
**30** *Cai Gafodd y _ _ _*, llyfr i blant bach gan Tony Ross (3)
**32** Nofel gan Angharad Tomos, _ _ _ _*'n Gwawrio* (4)
**33** *Yr Allwedd _ _ _*, nofel gan Eurgain Haf (3)
**34** Enw cyntaf awdur *Cymru ar Blât* (5)
**36** Llyfr am ferch o ardal y Bala a rwyfodd ar draws dau gefnfor (2, 3, 10)

**I LAWR**

**1** Nofel gyffrous gan Gwyn Llewelyn, *'_ _ _ _ _ yng Ngruddiau'r Rhosyn'* (2, 3)
**2** Enw cyntaf Prifardd o Benllyn, awdur y gyfrol *Cynefin* (5)
**3 a 35** Enw'r gyfres deledu a esgorodd ar gyfrol ddifyr *Teithiau Dewi Pws – Fo a Fi gyda'i Help Hi* (3, 3)
**4** Cyfrol o storïau byrion, _ _ _ _ *Gaeaf a Storïau Eraill* gan Kate Roberts (4)
**5** Gair olaf teitl nofel rymus gan Llwyd Owen a gyhoeddwyd yn 2006 (6)
**6** Enw cyntaf awdur nofel anarferol *Dyn yr Eiliad* (4)
**7** Cyfenw awdur *Am y Tywydd – Dywediadau, Rhigymau a Choelion* (5)
**11** Cyfrol gan Alun Ifans, _ _ _ _ *Sir Benfro – 24 o Deithiau Hudol* (4)
**12** Enw cymeriad yn *Y Jaguar Glas Tywyll*, nofel gan Elgan Philip Davies (5)
**15** Cyfrol gan Jerry Hunter a enillodd iddo Fedal Ryddiaith 2010 (7)
**17** Nofel wedi'i gosod yn yr Oesoedd Canol gan William Owen Roberts (1, 3)
**18** Casgliad o storïau byrion gan Fflur Dafydd, _ _ _ *y Locustiaid* (3)
**19** Enw cyntaf *Brenhines Powys* y ceir ei hanes gan Gwenan Mair Gibbard – un o *Lyfrau Llafar Gwlad* (4)
**20** Un o gylchgronau bywiog yr Urdd (3)
**22** Nofel gan Gareth F. Williams, _ _ _ _ _ *heb Elin*, enillydd gwobr Tir na n-Og 2007 (5)
**24** Astudiaeth o nodwedd arbennig o'r traddodiad barddol gan R. M. Jones, _ _ _ _ *a'i Gyfeillion* (4)
**26** Enw cyntaf golygydd *Telyn Fyw* a gyhoeddwyd yn 1996 (6)
**27** Aeth Bethan Gwanas yn ôl i'r lle hwn (5)
**28** Teitl nofel rymus gan Michael Morpurgo, _ _ _ _ _ *Rhyfel* (5)
**29** Ffoadur o wlad Laxaria sydd hefyd yn enw ar nofel gan Mihangel Morgan (5)
**30** *Haf _ _ _ _* gan Angharad Tomos, llyfr a gyhoeddwyd yn 2010 (4)
**31** Cyfrol ddifyr gan y diweddar Gwyn Erfyl, _ _ _ _ *Ddirgel Ffyrdd* (4)
**35** Gweler 3 i lawr.

**Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gyda'r atebion**

gwales.com llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

**ENW**

**CYFEIRIAD**

**ENW'R PAPUR BRO**

Anfonwch y croesair at: **Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2011. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.**

DIWRNOD Y LLYFR WORLD BOOK DAY 03.03.2011

**Cyngor Tref Llambed**

Maer: Rob Phillips; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 25 Tachwedd 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer.

Cafwyd cyflwyniad diddorol gan Mr Michael Freeman, Curadur Ceredigion sy'n gyfrifol am yr adran arddangos yn Llyfrgell y Dref. Nodwyd y byddai Hanes Llambed yn barod iawn i gynorthwyo i drefnu arddangosfeydd cyson, safonol a blaengar ar gyfer y dref ar y safle yn y dyfodol.

Plismona Nodwyd bod yr heddlu yn archwilio Parc yr Orsedd yn ofalus gyson wedi iddynt dderbyn adroddiadau bod gwydr ar y parth chwarae.

Roedd post sy'n eiddo i Gyngor y Dref wedi'i ddifrodi ar y Comins ac roedd yr heddlu'n ymchwilio.

Goleuo strydoedd. Yn ystod y flwyddyn roedd rhai goleuadau stryd wedi'u diffodd i arbed ynni. Ond yn dilyn rhai digwyddiadau roedd rhai ohonynt wedi'u ailgynnau ar gais yr heddlu. Byddid yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa tua'r dyfodol.

Ystyriwyd cais am seddi cyhoeddus ar y Stryd Fawr ond cyn symud ymlaen byddai'r heddlu'n adrodd ar weithredu gwrthgymdeithasol yn yr rhan hon o'r dref.

Gwelliannau i Sgwar Harford. Roedd pethau'n symud yn eu blaen ond roedd trafodaethau eto i'w cynnal gyda rhai rhanddeiliaid.

Cyfarfod ag Arweinydd Cyngor Ceredigion a Phrif Weithewdwr y Cyngor. Yn wyneb y toriadau, nodwyd mai blaenoriaethau Cyngor Ceredigion oedd Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Priffyrdd, Adran y Prifweithredwr, Adran Gwasanaeth Amgylcheddol a Thai. Trafodwyd yn ogystal gwella diogelwch ar Lôn Picton a Mount Walk; problem trafnidiaeth yn Rhes Harford; ail-lunio'r fynedfa i Faes parcio'r Rookery: cynlluniau ar gyfer Neuadd Fictoria; adolygu trefniadaeth etholiadol Ceredigion.

Buwyd yn trafod gwelliannau i Stryd y Felin. Nodwyd bod cynllun peilot Ysgol 3-19 Llambed, yn mynd yn ei flaen yn hwylus ac y byddai cyfle i'r gymuned leisio barn yn y Flwyddyn Newydd.

Diolchwyd i'r Lleng Brydeinig am bob cymorth ar Sul y Cofio. Bydd yr apêl i drwsio'r difrod a wnaed i'r cerrig beddi ym mynwent yr eglwys ar agor am gyfnod eto, cyn trosgwyddo'r swm a gasglwyd i'r ficer.

**Cyngor Bro Pencarreg**

Cadeirydd: Dannie Davies; Clerc: Eric Williams; Cynghorwyr Sir: Fiona Hughes, Eirwyn Williams.

Cyfarfu'r Cyngor ar 10 Ionawr 2011 yn Neuadd Sant Iago, Cwmann

Nid yw'r Cyngor wedi cael gwybod gan Adran Gynllunio'r Sir pryd y cynhelir cyfarfod safle yn Braichesmwyth. Mae Cyngor Bro Pencarreg yn awyddus i wybod ac i fod yno i ddangos cefnogaeth i'r cynllun.

Mynegwyd pryder nad oedd dim gwelliant wedi digwydd i'r pafin cul ger Lleinau, Cwmann, er bod addewyd wedi ei wneud y byddai'n cael ei wneud y llynedd.

Roedd gwasanaeth y Cadoediad eleni yng ngofal y Parch William Strange a'r Canon Wynzie Richards, gydag aelodau o'r Ffermwyr Ifanc yn cymryd rhan. Roedd tyrfa dda yno fel arfer ac roedd clod mawr i'r gwellianau i'r Ardd Goffa. Roedd y Cyngor yn hapus iawn â chrefftwaith y crefftwr lleol.

Derbyniwyd y canlynol: Cyflysterau i'r Anabl yn Nhafarn y Ram; adeilad i gadw gwartheg a defaid yn Tan y foel Cwmann; cryfhau'r wifren drydan sy'n rhedeg ger hen linell y rheilffordd o 11kv i 33Kv. Nid oedd gwrthwynebiad i'r ceisiadau.

Derbyniwyd holiadur am ein syniadau am bolisi y Sir i greu mwy o safleoedd i deithwyr a sipsiwn. Mae pedair safle ar gael ar hyn o bryd. Bydd mwy o drafod ar y pwnc hwn y mis nesaf.

Derbyniwyd llawer o geisiadau am gymorth ariannol; penderfynwyd eu trafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7fed Chwefror 2011

# Alltyblaca

**Diolch**

Dymuna Dilwen George a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn dilyn marwolaeth ei hŵyr Aled yn ddiweddar. Diolch hefyd am y cyfraniadau er cof amdano, at 'Ymchwil Leukaemia.' Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr.

## Sarn Helen

Bu rhaid newid dyddiad ras y mast o fis Dachwedd i ddechrau Ionawr eleni oherwydd yr eira. Roedd yr ras yn dechrau o ganolfan gwyliau Blaenwern, Llanybydder gyda chwech deg saith o redwyr. Carwyn Thomas o glwb Sarn Helen yn ennill mewn 41 munud 17 eiliad, 2il Daniel Hooper Sarn Helen 44 munud 24 eiliad, 3ydd Mark Thomas Cardigan RC 44 munud 38 eiliad. Dynion 40 1af Glyn Price Sarn Helen 44 munud 50 eiliad, 2il Michael Davies Sarn Helen 46 munud 29 eiliad, 3ydd Jonathan Jones Carmarthen Harriers 48 munud 43 eiliad. Davie Powell Aberystwyth AC enilloedd y categori 50 a 2il Richard Marks Sarn Helen 50 munud 27 eiliad. 3ydd Graham Spencer Mercia 51 munud. Anna O'Neil oedd y cyntaf nol yn ras y menywod 35 53 munud 37 eiliad, 2il Nicola Quinn Emlyn Runners 55 munud 39 eiliad, 3ydd Alyson Hayes Cardigan RC 58 munud 07 eiliad. 1af menywod agored Megan Thomas TROTS 57 munud 40 eiliad, 2il Sian Roberts Jones Sarn Helen 60 munud 13 eiliad, 3ydd Caryl Davies 61 munud 22 eiliad. 1af menywod 45 Helen Walker Ingli Runners 50 munud 36 eiliad, 2il Jane Wilkins Cardigan RC 64 munud 13 eiliad, 3ydd Lorraine Dyde Pembrokeshire Harriers 79 munud 05 eiliad. Yn ras y beicwyr John Lloyd MTB Mountain enilloedd mewn 45 munud 12 eiliad, 2il Eric Rees Sarn Helen 49 munud 45 eiliad, 3ydd Daniel Colman Pembrokeshire Harriers 50 munud 44 eiliad. Enillwyd y tim gan Sarn Helen Carwyn Thomas, Glyn Price a Sian Roberts Jones.

Aled Sion Jones Aberystywth AC enilloedd ras y plant o dan 11, 5 munud 27 eiliad, 2il Thomas Willoughby Sarn Helen 6 munud 7 eiliad, 3ydd Robert Jenkins Sarn Helen 6 munud 14 eiliad a 1af yn ras y merched Rachel Priddey Sarn Helen 6 munud 12 eilid, 2il Grace Page Sarn Helen 6 munud 34 eiliad, 3ydd Heledd Jenkins Sarn Helen 7 munud 37 eiliad. Caitlin Page Sarn Helen enilloedd y ras dan 16, 11 munud 55 eiliad, 2il Ffion Quan Sarn Helen 12 munud 48 eiliad, a 1af bechgyn Iwan Evans Sarn Helen12 munud 26 eiliad a 2il Kaya Hooper 15 munud 56 eiliad.




Cyflwynwyd gwobr yr 'inter clubs' a'r ennillwyr o glwb Sarn Helen oedd Michael Davies, Glyn Price, Tony Hall, Gareth Jones a Dee Jolly, a thim y menwyod a'r dynion.

Aberystwyth 10K 2il Glyn Price 35 munud 41 eiliad, 14 – G ethin Jones 38 munud 50 eiliad, 18 – Richard Marks 39 munud 14 eiliad, 24 – Huw Price 40 munud 31 eiliad, 32 – Eric Rees 41 munud 19 eiliad, 48 – Mark Dunscombe 42 munud 43 eiliad, 85 – Sian Roberts-Jones 47 munud 51 eiliad a 230 – Allen Watts 1 awr 42 munud 27 eiliad.

Ddydd Sul bu Caitlin Page yn cystadlu ar drac NIAC yng Nghaerdydd mewn ras 800 medr Campwriaeth Cymru; daeth yn drydydd yn y rhag-ras mewn 2 munud 39 eiliad (PB), ac roedd ei hamser yn rhagorol i gael rhedeg yn y ras derfynol a gorffen yn y chweched safle.

## Llanwnnen

**Ysgol Llanwnnen**

Ar y pedwerydd o Ragfyr, trefnwyd trip i wneud siopa Nadolig ac ymweld â Sioe Gerdd *Mamma Mia*. Aeth un bws i Gaerdydd nos Sadwrn ac aros yng Ngwesty'r Village. Ymunodd llond bws arall â nhw fore Sul i weld y sioe yng Nghanolfan y Mileniwm. Diolch yn fawr i Miss Nia Davies am drefnu trip llwyddiannus arall.

Nos Iau, Rhagfyr 9fed, bu'r plant yn diddori siopwyr Llambed yn Ffair Nadolig y dref. Cafwyd cyfle i ymweld â Siôn Corn a blasu sglodion hyfryd a gafwyd yn rhad ac am ddim gan Stuart Lloyd.

Cynhaliwyd sioe Nadolig yr ysgol 'Noson y Gêm Fawr' ar brynhawn a nos Fawrth y 14eg yn neuadd yr ysgol. Roedd y neuadd yn orlawn ar gyfer y ddau berfformiad. Gwnaed fideo i gydfynd â'r sioe a chafwyd llawer o hwyl a sbri yn gwylio plant ac aelodau'r gymuned yn cymryd rhan.

Ffarweliwyd â Miss Davies ar ddiwedd y tymor. Bu'n gweithio yn yr ysgol am gyfnod o ddeuddeg mlynedd. Diolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r ysgol a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Gynradd Felinfach.

Llongyfarchiadau i'r ysgol am dderbyn gwobr Efydd i gydnabod ymdrechion yr ysgol wrth weithio tuag at ffordd gynaliadwy o fyw.

Bu blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan mewn gweithdy radio gyda Marc Griffiths yn Ysgol Llanwenog. Cafwyd cyfle i sgriptio a recordio rhaglenni radio.

Aeth tîm pêl-rwyd yr ysgol i gystadlu yn erbyn ysgolion y cylch. Cafwyd cystadlu brwd, a daeth tîm yr ysgol yn ail.

**18 oed**

Dathlodd Nia Thomas, Bro Grannell ei phen-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Rhagfyr. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlir yn ddwys â Clive a Helen Roberts a'r teulu oll, 19 Bro Llan yn dilyn marwolaeth mam Clive a oedd yn byw yn Ffarmers.

**Gwellhad Buan**

Dymuniadau gorau i Ray Thomas, Berllan am wellhad buan wedi iddi dorri ei chlun yn ddiweddar.

Pob dymuniad da hefyd i Mary Evans, Bro Cadarn wedi iddi ddisgyn yn y tywydd garw.

Danfonwn ein cofion gorau at Mrs Joyce Williams, Pleasant Hill sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais ond sydd ar hyn o bryd yn gwella gyda'i merch Mair yn Rhoslwyn, Cwmsychbant. Brysiwch wella.

**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yng Ngwesty'r Grannell nos Lun, 17eg o Ionawr. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Llywydd Mrs Gwen Davies a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i'r aelodau oll. Noson i edrych ymlaen oedd hon a pharatoi rhaglen am y flwyddyn i ddod. Wedi tipyn o drafod syniadau mae yna raglen ddifyr iawn ar ein cyfer. Enillydd cystadleuaeth y mis oedd Mrs Alice Davies.

Bu'r Cinio Nadolig yn noson hwylus iawn: bwyd blasus, cwmni difyr a llawer o hwyl gyda phawb yn ymuno mewn gêm o 'Chwist' i orffen y noson. Mr Roy Roach oedd y gŵr buddugol gyda'r sgôr uchaf. Enillydd cystadlaethau'r flwyddyn oedd Mrs Mary Davies a dderbyniodd rodd fechan am ei hymdrech. Mae'r cystadlaethau hyn yn dipyn o hwyl a llongyfarchiadau cynnes i Mary.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty'r Grannell ar nos Lun, 7fed o Chwefror yng nghwmni Patricia Storr a'i chasgliad o Ffaniau. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb ymuno â ni.

**Symud Aelwyd a Chydymdeimlo**

Yn ystod y gaeaf mae Mrs Avarina Lewis wedi symud aelwyd. Ymadawodd â'i chartref yn Gwelfro i fyw yn nes at y plant yn Chelsea Manor, Ffosyffin. Dymunir iddi iechyd da yn ei chartref newydd ac fe welir ei heisiau yn yr ardal.

Hefyd cydymdeimlwn â hi yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Mair a'i brawd Bill yn ddiweddar.

## O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Wrth edrych drwy'r calendr newydd, mae hi'n amlwg y bydd 2011 yn flwyddyn fawr i Geredigion a Chymru. Mae yna gyfnod cyfnod cyffrous o'n blaenau, er fe fydd yna her i'w goresgyn hefyd. Fe fyddwch mae'n siwr yn ymwybodol o'r refferendwm dros bwerau deddfu llawnach i'r Cynulliad a gynhelir ar 03 Mawrth. Fe fyddai cael pleidlais Ie yn y refferendwm yn gam a fyddai'n sicrhau bod system gyflymach o wneud penderfyniadau er lles pobl Cymru. Ar ddechrau mis Ionawr, cefais y fraint o siarad yn lansiad lleol yr ymgyrch Ie Dros Gymru. Braf oedd gweld cynifer yno – roedd Canolfan y Morlan yn Aberystwyth yn llawn i'r ymylon – ac roedd hynny'n galonogol iawn i'w weld. Cafwyd trafodaeth ddifyr ac roedd brwdfrydedd ymysg y gynulleidfai'w weld ac i glywed mwy am bwysigrwydd y refferendwm yn amlwg.Os ydych am helpu gyda'r ymgyrch, gallwch ddanfon e-bost at ceredigion@iedrosgymru.com. Hefyd yn ystod mis Ionawr, fe ddaeth y Dirprwy Brif Weinidog, Ieuan Wyn Jones AC, i Aberteifi i gael gweld y gwaith peirianyddol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn ail-agor Cyffordd Tesco yn y dref. Mae'r gyffordd wedi bod ar gau ers 2003 erbyn hyn, ac wedi blynyddoedd o ymgyrchu, rwy'n edrych ymlaen at weld ceir o bob cyfeiriad yn medru defnyddio'r gyffordd. Tra fy mod yn Aberteifi, fe ymwelais â'r Guildhall lle mae'r gardigan enfawr a wëwyd i nodi 900 mlwyddiant y dref. Mae'n amlwg y treuliwyd oriau yn gweithio ar y gardigan ac mae'n gofnod teilwng o hanes y dref. Yn olaf, fe fynychais ginio i ddathlu diwedd apêl Sioe'r Cardis. Hoffwn gymryd y cyfle i longyfarch pob un fu'n helpu trefnu digwyddiadau a chodi arian yn ystod y flwyddyn, mae'r holl waith caib a rhaw wedi talu ar ei ganfed.

# Yn y Gegin gyda Gareth

**‘Cwtsh a Chusan’**

Oes wir, mae yma naws a blas rhamant yn cynhesu ‘Cegin Clonc’ mis Chwefror. Dyma fwyd syml ond rhamantus a blasus, ac mae’n rhoi digon o amser i chi dreulio gyda’ch partner oherwydd rydw i wedi dyfeisio pryd fydd yn addas i’w baratoi ymlaen llaw yn ystod y dydd.

Mae’r pryd yn llawn bwydydd ‘affrodisiac’ a fydd gobeithio yn rhoi sbarc i’r noson.

Felly, gariadon a chyplau ‘Clonc’, gosodwch y bwrdd, cynnwch y canhwyllau, agorwch botel a chiciwch y sgidie bant.

Mwynhewch,

*Gareth.* (Pob lwc!)

**Hwyaden wedi’i rhostio gyda gwin coch a saws oren**
**Cynhwysion.**



2 coes hwyaden
1 oren
150 ml o win coch
150 ml o stoc cyw iâr
2 llond llwy fwrdd o jeli cyrens coch
Persli wedi’i falu ar gyfer gweini’r pryd.

**Dull**

1. Cynheswch y ffwrn i 190ºC; 400ºF; Nwy 5. Pigwch y coesau ac ychwanegwch bupur a halen. Rhowch mewn tun a gorchuddiwch â ‘foil’. Rhostiwch am awr, yna arllwyswch a chadw’r braster.
2. Tynnwch y ‘foil’ a rhowch yn ôl yn y ffwrn am hanner awr nes bod y croen yn ‘grisp’.
3. Mesurwch lond dwy lwy fwrdd o’r braster i sosban gydag ychydig o groen yr oren, sudd yr oren, y jeli a’r stoc, a dewch â’r cyfan i’r berw a’i fudferwi am ¼ awr. Gweinwch gyda sbigoglys (spinach) a thatws arbennig.

**‘Sbigoglys a Thatws Arbennig’**
**Cynhwysion.**



250 gm o datws wedi’u crafu
Ychydig fenyn
3 llond llwy fwrdd o ‘creme fraiche’
50 gm o sbigoglys
Ychydig nutmeg
1 gwyn ŵy
Llond llwy fwrdd o gaws wedi’i falu

**Dull**

1. Cynheswch y ffwrn i 190ºC, 400ºF, Nwy 5.
   Irwch dwy ddysgl fach â menyn a berwch y tatws nes yn feddal a’u cymysgu nhw gyda menyn a ‘creme fraiche’.
2. Rhowch y sbigoglys mewn colander ac arllwys dŵr berwedig drosto. Malwch y sbigoglys a’i gymysgu â’r tatws. Rhannwch rhwng y ddwy ddysgl, gwasgarwch y caws dros yr wyneb a choginiwch am 20 munud.

**Pwdin Siocled Syml**
**Cynhwysion**



Defnyddiwch siocled o ansawdd da; mae digon yma i ddau - mewn gwydrau bach (port).
1 llond llwy fwrdd o siwgr mân
3 llond llwy fwrdd o hufen dwbl
25gm o siocled tywyll wedi’i falu’n fân.
Un llond llwy fwrdd o ‘Baileys’.

**Dull**

1. Rhowch y siwgr mewn basn ac arllwyswch 2 lond llwy fwrdd o ddŵr berwedig i doddi’r siwgr.
2. Cynheswch yr hufen mewn sosban ac yna ychwanegwch y siocled nes iddo doddi, yna’r Baileys a’r syryp siwgr.
3. Arllwyswch i’r ddau wydr, addurnwch ag hufen, a gweinwch gyda llwy de.




Cegin *Gareth*
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau*
*Cacennau*
*Dathliadau*
*Partïon*


# MiS y PaPUr NeWYDD

## Colofn Dylan Iorwerth

**Mae’n werth troi’n alltud ambell dro ...**

Un o’r pethau rhyfedd am fynd ar wyliau i le pell ydi’r arfer o chwilio am bethau sy’n debyg i gartre’.

Yng Ngwlad y Basg, neu Gatalunya, yn ardal Strasbourg neu Iwerddon, dw i wedi aros a meddwl, “Diawcs, mae hwnna’n debyg i’r afon yn Rhuddlan Teifi neu i Fynydd Llanybydder”.

Peth rhyfeddach fyth ydi mynd ar daith a dychmygu eich bod chi’n gweld pethau’n debyg i Gymru ganrif a hanner yn ôl.

Dw i wedi cael y profiad hwnnw ddwywaith yn y flwyddyn ddiwetha’, er nad ar wyliau yr o’n i. Ond wrth helpu i wneud rhaglenni teledu ym Madagascar ac eto yn Zanzibar, dw i’n credu fy mod i wedi gweld ychydig o Gymru hefyd.

A finnau mewn peryg o gael fy mhenodi’n Ohebydd Arbennig Clonc ar ynysoedd Affricanaidd Môr India, mae cymharu’r gwledydd yn ddigon i sobri dyn. Ar yr olwg gynta’, mae’n wallgo; mewn gwirionedd, mae yna fudd mawr yn y peth.

Mi ddaeth hynny’n gliriach fyth ar ôl bod yn edrych ar rai o luniau’r ffotograffydd cynnar o Gellan, John Thomas ... a rhai o’r rheiny’n dangos golygfeydd a phobol o’r ardaloedd yma.

Edrychwch ar y ffyrdd di-darmac ac mi welwch chi’r hyn sydd ym Madagascar a Zanzibar heddiw – ychydig o briffyrdd tarmac eitha’ da, a’r gweddill yn ffyrdd cul rhwng bythynnod digon tlodaidd yr olwg.

Edrychwch ar y bobol wrth eu gwaith a llawer ohonyn nhw mewn dillad sy’n rhyfeddol o fudr yn ôl ein safonau ni. Ond os oes yna lwch a phridd ym mhobman a’r cyfle a’r amser i olchi dillad yn brin, dyw hynny ddim yn syndod.

Ac mewn sawl ffordd, mae’r economi’n debyg hefyd. Pobol yn tyfu cnydau a magu anifeiliaid ar eu ffermydd ac yn dod â nhw i farchnadoedd i’w gwerthu a phrynu nwyddau angenrheidiol ar eu cyfer eu hunain. Dim ond yr angenrheidiau, a chyfnewid pethau yn ogystal â phrynu a gwerthu.

Mae’n wir nad oedd tyddynwyr Ceredigion yn gwerthu pinafalau a mangos a ffrwythau’r dioddefaint ond roedden nhw’n gwerthu tatws a maip a chig. Ganrif a hanner yn ôl yng Nghymru, mae’n siŵr mai byw o’r llaw i’r genau yr oedd llawer o bobol.

Does dim archfarchnadoedd mewn llefydd fel Zanzibar a Madagascar; siopau bychain sydd yna, a llawer o’r rheiny’n anffurfiol – siopau bach ffwrdd-â-hi efallai neu werthu o stafell yn nhu blaen y tŷ.

Roedd hynny’n fy atgoffa fi o’r straeon am Ffair Llanwnnen, er enghraifft, pan oedd bron pob tŷ yn y pentre’n troi’n dafarn tros dro a phobol yn gwneud bwyd er mwyn ei werthu i’r ymwelwyr oedd yn heidio i’r lle.

Y peth arall welwch chi yn rhai o luniau John Thomas ac mewn gwledydd tlawd ydi ôl tlodi ar gyrff a wynebau pobol. Fel petai eu cyflwr cymdeithasol wedi ei fynegi yn eu llygaid ac yn eu ffordd o sefyll a symud.

O ran hynny, mi allwch chi weld hynny heddiw yn rhai o drefi a dinasoedd Cymru ac, os edrychwch chi’n iawn, yng nghefn gwlad hefyd. Ac mae’n debyg mai dyna’r wers arall sydd i’w dysgu o deithio – mi all y gorffennol ddod yn ôl.

Nantlais, y bardd o ardal Pencader, oedd yn gyfrifol am y llinell honno am y “teid yn dod miwn a’r teid yn mynd mas” ac felly y mae hi yn hanes cyfoeth a gwareiddiad hefyd. Zanzibar heddiw, Cymru ddoe, neu fory?

Trydedd gwers? Mae’n cymryd amser i wledydd a democratiaeth ddatblygu. Yng Nghymru ganrif a hanner yn ôl, dim ond y cefnog oedd yn pleidleisio ac roedd gormes economaidd yn ofnadwy. Fedrwn ni ddim disgwyl i wledydd eraill gamu’n syth o’r hen amser i’r byd modern.

A fyddai hynny ddim yn gwneud lles iddyn nhw chwaith. Petaen ni’n byw yn 1861 ac yn edrych ar Gymru 2011 tybed faint o’n bywydau ni heddiw y bydden ni’n dyheu amdanyn nhw.

**HYSBYSEBU YN CLONC**

*“Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro.”*

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach. £30.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Bu disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar daith i Aberystwyth yn mwynhau perfformiad "Hosan a Stori" gan gwmni Drama Arad Goch. Yn dilyn y perfformiad aethant i Amgueddfa Ceredigion lle'r oedd cyfle iddynt wneud gweithgareddau hanesyddol. Cafwyd amser gwych Cynhaliwyd noson agored yn yr uned dan 5 i roi cyfle i rieni a phlant newydd ymweld â'r dosbarthiadau a'r staff. Diolch yn fawr i'r staff i gyd am baratoi.



Yn ystod y tymor mae disgyblion yr adran Iau i gyd yn eu tro yn cael cyfle i weithio yn yr Ysgol Uwchradd gyda Liz Harding ar furlun yn seiliedig ar stori hanesyddol Siôn Philip. Bydd y murlun yn cael ei osod yn neuadd yr ysgol ac rydym yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael gweld y gwaith gorffenedig.



Mae disgyblion blwyddyn 12 yn parhau i ymweld â disgyblion blynyddoedd 3-6 i wrando arnynt yn darllen ac i gynnal trafodaethau am yr hyn a ddarllenir.

Bu grŵp o ferched yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd yn ddiweddar a chawsant lawer o hwyl a sbri yn datblygu sgiliau. Diolch i Miss Pugh am eu hyfforddi.

Gwelwyd Lauren Hill ac Elan Jones ar raglen Rapsgaliwn S4C yn ddiweddar ac fe fydd Nia Beca Jones ac Owain Jacob yn ymddangos arno ar yr ail o Chwefror. Gwnaeth y pedwar disgybl fwynhau'r profiad yn fawr. Da iawn chi!



Aelodau Cyngor Ysgol Ffynnonbedr a'r cydlynydd Nerys Davies yn cyflwyno siec am £250.00 i reolwraig a phreswylwyr Cartref Hafan Deg, Llambed. Danfonwyd £250.00 at Tŷ Hafan hefyd, sef casgliad yr oedfa garolau.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi dechrau cynllun sy'n eu hannog i lanhau eu dannedd yn yr ysgol. Maent wedi derbyn brwshys a phast dannedd ac mae'r cynllun yn codi eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd gofalu am eu dannedd. Diolch i'r staff am gynorthwyo.



Cynhaliwyd rownd gyntaf cystadleuaeth Cogurdd yn yr ysgol a diolch i Mary Jones a Helen Jones am feirniadu. Llongyfarchiadau i Grace Page am ddod yn gyntaf, Osian Jones yn ail a Lois Price yn drydydd. Roedd cwscws pawb yn edrych yn fendigedig a bu sawl aelod o'r staff yn mwynhau'r blasu!

Mae'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon wedi penderfynu cynnal sêl cist car ar Sadwrn cyntaf pob mis yn Ysgol Ffynnonbedr gan ddechrau ar Ebrill 2ail. Hefyd, y bwriad yw trefnu disgo i'r disgyblion yn neuadd yr ysgol cyn hanner tymor.

Bu dau ddisgybl blwyddyn 6 sef Daniel Davies a Rebecca Heath yn Aberaeron, ynghyd â disgyblion eraill o'r Sir, yn cael cyfle i fynegi barn a chyfrannu at Gynllun Plant a Phobl Ifanc Ceredigion. Diolch i'r ddau am eu cyfraniadau ac i Mrs S Evans am fynd gyda nhw.

Bu tri arolygydd o'r Cynulliad yn ymweld â'r campws am ddeuddydd i arsylwi datblygiadau yn sgil y peilot 3-19 oed. Roedd y sylwadau yn gadarnhaol iawn a chynigwyd nifer o argymhellion diddorol.

Cofiwch am Eisteddfod yr Ysgol ar Fawrth 1af, Rygbi'r Urdd ar Fawrth 2ail, Diwrnod y Llyfr ar Fawrth 7fed ac Eisteddfod Gylch yr Urdd ar Fawrth 17eg.

Ysgrifennaf hwn ar ddiwedd y tymor cyntaf fel ysgol 3-19. Mae'r tymor wedi hedfan, gyda llawer o fynd a dod ar draws y ddau gampws. Y mae'r trefniant newydd wedi digwydd yn ddi-drafferth ac y mae bywyd yn y ddwy ysgol yn parhau i fod yn brofiad positif i'r disgyblion. Carwn ddiolch i'r holl staff a'r llywodraethwyr am eu cydweithrediad parod yn y fenter newydd hon.

Cafwyd dechreuad da iawn i'r tymor gan y ddwy ysgol. Fel y gallech ddisgwyl roedd popeth yn ei le – amserlen, staff, grwpiau dysgu a niferoedd ar y rôl yn iach yn y ddwy ysgol. Dechreuwyd y tymor gyda diwrnod hyfforddiant mewn swydd ar y cyd, a chyfle i staff y ddwy ysgol ddod i adnabod ei gilydd yn well. Bu prysurdeb mawr gyda'r ddwy ysgol yn manteisio ar bob cyfle i gydweithio ac ymestyn profiadau'r disgyblion. Cafwyd gweithgareddau ar y cyd, cyfleon i ehangu profiadau, rhannu adnoddau ac arbenigedd dysgu ac yn gyffredinol gwneud mwy gyda'n gilydd. Bu'r tîm hŷn yn edrych ar sut i gydweithio ar bolisiau a gweithdrefnau ac adnabod blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Comisiyniwyd Mr Mike Haines, Optima Education, i ysgrifennu gwerthusiad o'r peilot 3-19. Mae e a'i dîm wedi ymweld â'r ysgol, wedi trafod gyda staff a chyfarfod â'r llywodraethwyr. Bydd Mr Haines yn ysgrifennu adroddiad interim ar lwyddiant y peilot yn y flwyddyn newydd.

*Dylan Wyn (Prifathro)*

O Hydref 20-22, mwynhaodd 22 o ddisgyblion Bl.8 a 9, ynghyd â 12 'Swog' o Fl.12 gwrs Cymraeg yng ngwersyll Glan-llyn. Cafwyd llawer o hwyl mewn amrywiol weithgareddau, o gerdded afon i adeiladu rafft, o ganŵio i ddringo wal a chwrs rhaffau a hynny yn heulwen fis Hydref.



Cafwyd gweithdy rapio gan Ed Holden a gweithdy radio gan Marc Griffiths yn ogystal - dau weithdy llwyddiannus iawn. Roedd y 12 'Swog' - sef Carwen Richards, Lisa Thomas, Cerys Roberts, Ruth Davies, Christina

# Ysgol Campws Llanbedr Pont Steffan

Davies, Deloni Davies, Kyle Collins-Ward, Jodie Coombes, Jemma O'Kane, Jodie Thomas, Daniel Doughty a Rowan Linseele Williams yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i ennill cymhwyster OCN Lefel 2 mewn gwaith ieuenctid, o dan arweiniad Luned George. Hoffai Delor James ac Elinor Howells ddiolch iddynt am eu help gwerthfawr a diolch i ddisgyblion Bl.8 a 9 am eu brwdfrydedd heintus a'r hwyl yn eu cwmni. Bu'n daith fythgofiadwy.


Bu'r canlynol o fl 7 yn rhan o Sgwad Sgwennu Ceredigion, yng nghwmni Dewi Pws (Bardd Plant Cymru) ar Hydref 7, yng Nghlwb Rygbi Aberaeron:-

Cerian Jenkins; Ffion Jenkins; Sophie Herron; Lleucu Ifans; Meirion Thomas; Iwan Jones; Rhys Davies a Jac Evans. Cawson lawer o hwyl.

Bu disgyblion Uwch Gyfrannol ac Uwch Cymraeg ar daith i Ysgol Gyfun Penweddig, ddydd Gwener, 19 Tachwedd i sesiwn Coffâu'r Prifardd Iwan llwyd, yng nghwmni Myrddin ap Dafydd, Mei Mac, Geraint Lovegreen, Owen Owens ac Ifor ap Glyn. Cafwyd prynhawn cofiadwy iawn.

Mae'r Clwb Cymraeg yn cwrdd bob yn ail ddydd Iau ar gyfer Bl.7 a 8 dan ofal disgyblion Bl.12 a chefnogaeth Miss Hedydd Jones, lle ceir amryw o weithgareddau cyffrous. Cafwyd hwyl yn coginio, mewn cwis a chwaraeon Potes hefyd.

Fel rhan o wersi Addysg Iechyd Blwyddyn 7, cafwyd cyfle i weld drama o'r enw 'Bin It'. Roedd y neges yn glir – mae gwm cnoi yn llygru'r amgylchedd. Cafodd y ddrama gymaint o argraff ar y disgyblion fel bod dau ohonynt, sef Dylan Hemmings a Rhydian Edwards wedi penderfynu ail greu'r neges i weddill yr ysgol yn ystod gwasanaeth. Hefyd fe berswadiodd y ddau Gyngor yr Ysgol i gytuno fod angen gwahardd gwm cnoi yn gyfangwbwl o'r ysgol – dyma ddrama bwerus iawn.



Llongyfarchiadau i Iwan Williams a Sion Whittingham o flwyddyn 10 ar godi swm sylweddol o arian tuag at 'Ambiwlans Awyr Cymru'. Ar Orffennaf 4ydd bu'r ddau yng Nghaerfyrddin yn cymryd rhan mewn taith feic noddedig o 23 milltir, gan godi £600 tuag at yr elusen. Er mwyn cydnabod ymdrechion arbennig y bechgyn, mae Iwan a Sion wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â'r Ambiwlans Awyr yn Abertawe. Fe fydd y ddau yn siwr o gael croeso cynnes ac yn sicr yn mwynhau'r cyfle gwych yma.

Ffarweliodd yr ysgol â dau aelod o staff ar ddiwedd y tymor. Dymunwn ymddeoliad hapus i Mr Alan Jones, Pennaeth yr Adran Ddylunio a Thechnoleg. Bu Mr Jones yn dysgu yn yr ysgol am 35 o flynyddoedd. Diolchwn iddo am ei gyfraniad gwerthfawr ar hyd y blynyddoedd. Fe wnaeth Mrs Elinor Howells, aelod o'r Adran Gymraeg hefyd yn ein gadael ni. Dymunwn bob lwc hefyd i iddi yn ei swydd newydd.



Llongyfarchiadau mawr i Mrs Nerys Rees ar enedigaeth merch fach, Gwenno Fflur.

Llongyfarchiadau i bwyllgor eco yr ysgol ar lwyddo i ennill gwobr efydd Eco-Sgolion. Menter ryngwladol yw'r rhaglen Eco-Sgolion sy'n cefnogi datblygiad cynaliadwy o fewn ysgolion.

Prif nod y pwyllgor yw i leihau effaith amgylcheddol yr ysgol yn y dyfodol drwy ystyried nifer o themâu fel ysbwriel, lleihau gwastraff, cludiant, byw'n iach, ynni, dŵr, tir yr ysgol a dinasyddiaeth fyd-eang.

Rydym yn falch iawn bod yr adran yn parhau i fynd o nerth i nerth, a'r tro hwn Emma Jones a Bethan Duford sydd yn dod â chlod i'r adran ac i'r ysgol. Fel rhan o'i gwaith Safon Uwch, fe gynlluniodd Emma wisg ddawns wedi ei hysbrydoli gan gyfnod yr wythdegau a oedd yn cynnwys system electroneg. Cynlluniodd Bethan wisg a fyddai'n addas i wisgo i ŵyl gerddoriaeth gan geisio ail ddefnyddio ac addasu hen ddillad er mwyn creu dilledyn newydd. Dewiswyd eu gwaith o blith gwaith disgyblion Cymru gyfan gan arholwyr allanol CBAC i'w gynnwys mewn arddangosfa arloesedd a gafodd ei chynnal yn ddiweddar yn Llandudno ac yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd. Roedd yr arddangosfa yn gyfle i weld y prosiectau mwyaf arloesol sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer lefel A, UG, a TGAU. Da iawn chi ferched!

Llongyfarchiadau i bedwar aelod o'r Chweched Dosbarth ar ennill tystysgrifau yn yr UK Senior Maths Challenge. Mae dros 65,000 o ddisgyblion rhwng 16-19 oed yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth bob blwyddyn. Dyma'r enillwyr:- Zoltan Kopacsi (Arian); Daniel Hurton (Arian); Rowan Evans (Arian); John Janes (Efydd).

Ar y 12fed o Hydref, cynhaliwyd sesiwn Blas ar yr Eidaleg gyda Sofia Morris Bl. 10 wrth y llyw. Bythefnos yn hwyrach, cafwyd eto Flas ar yr Eidaleg ac Ieithoedd Eraill gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng rhai ieithoedd Ewropeaidd. Yn y gystadleuaeth a ddilynodd, cafwyd dau enillydd sef Martyna Trybula, Bl. 8 a Dion Davies, Bl. 7.

Ar yr 16eg o Dachwedd, cafwyd sesiwn Blas ar yr Almaeneg gydag Oliver Beecher, Bl. 10. Cafwyd cystadleuaeth yn seiliedig ar yr Almaeneg ac er bod nifer yn gywir, tynnwyd enw o het a'r enillydd oedd Caleb Davies, Bl. 9. Bythefnos yn ddiweddarach, cafwyd sesiwn arall o ddysgu Almaeneg. Diolch i Oliver am ei ddysgu brwdfrydig!

Ar Dachwedd 23ain, cymrodd dau o ddisgyblion Bl. 13, sef Ben Lake a Jasmine Kime, ran yng nghystadleuaeth Cyfieithydd Ifanc y Flwyddyn a drefnir yn flynyddol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Penderfynodd y ddau gyfieithu o'r Ffrangeg i'r Saesneg. Mae'r gystadleuaeth yn agored i ddisgyblion o ysgolion ym mhob un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd a'i nod yw annog disgyblion i astudio ieithoedd ac ystyried gyrfa mewn cyfieithu. Roedd y gystadleaeth yn cymryd lle ar yr union 'run pryd ym mhob un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Fe gymerodd dwy ysgol o Gymru ran yn y gystadleaeth hon ac fe gafodd Ben a Jasmine hwyl ar y cyfieithu!

Fe ymwelodd yr Adran Saesneg â ' At–Bristol' un o ganolfannau addysg mwyaf y Deyrnas Unedig. Yn ystod y diwrnod fe wnaeth Morph ein tywys ni ar daith drwy animeiddio'r gorffennol a'r presennol. Fe'n syfrdanwyd gan y Planetarium, a fe gawson ni gyfle i greu animeiddiadau ein hunain a chael ein gorchuddio hefyd gyda swigen anferth. Treuliwyd y prynhawn yn ymweld â'r sŵ, gan fwynhau'r profiad yn fawr.

Diolch i Mr Tim Evans, Mrs Botwood and Miss Jones am gytuno i ddod gyda ni ar y daith.

Llongyfarchiadau i Ffion Quan a Caitlin Page o flwyddyn 8 a Rhian Jones o flwyddyn 10 ar gystadlu ym Mhencampwriaeth Trawsgwlad Ysgolion Cymru. Daeth Caitlin yn 7fed a Ffion yn 9fed. Da iawn ferched!


**Alec Page Gof**

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.

*Dewch i drafod eich syniadau.*

Yr Efail, Barley Mow, Llambed.

**01570 423955**

**A WILLIAMS**
CONTRACT SERVICES CYF

Peiriannau Hirio, Peirianwyr Cyffredinol, Gwaith Sylfaen, Menage, Tirlunio, Garddio, Ffensio, Adeiladu a Gwaith Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb,
Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk
Y we: www.williamscontractservices.co.uk

**T. Emyr Jones**
**Adeiladwr**



Araul, Cwmann
01570 423921
07867 945174

**CANOLFAN ADDURNO**
**AA**
**A**

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

*Arbenigedd ar garreg eich drws.*

**3 Stryd y Bont**
**Llanbedr Pont Steffan**
**01570 423156**

**Cludfwyd Indiaidd**
**NEHAR**



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

**15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.**

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

**10 Stryd y Bont, Llambed**
**01570 422893 / 422175**

# Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Blwyddyn Newydd Dda blant! Wel sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad gyda chi ers y llynedd! Y cwestiwn mawr wrth gwrs yw a fuodd Sion Corn i'ch gweld chi? Rwy'n siwr ei fod e', gan eich bod chi gyd yn blant arbennig o dda. Wel mi fuodd y postmon yn brysur iawn dros y Nadolig yn tŷ ni, nid yn unig yn dosbarthu cardiau ond llwyth o luniau hyfryd o'r goeden Nadolig y buoch chi gyd yn lliwio yn arbennig i Lincyn Loncyn. Daeth dros 20 o luniau penigamp, pob un wedi eu lliwio yn liwgar a thaclus dros ben. Ardderchog blant!

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu o ddosbarth y babanod yn Ysgol Gynradd Llanwenog, ond yn enwedig i Sion O'Keefe, Hafwen Davies, Molly Greenfield a Karolina Kuwalek. Hefyd llongyfarchiadau i Alaw Jones o Lanwnnen, Lleucu Angharad Rees o Benffordd, Owen Heath ac Ifan Meredith o Lambed, Luned Haf Jones o Gwmsychpant, Betsan Mai Davies o Landysul ac Elan Mari Jenkins o Alltyblaca am luniau gwych. Yn agos iawn i'r brig y mis hwn mae Manon Williams o Giliau Aeron, ond ar y brig y tro hwn mae Lois Mai Jones, Blaenhirbant Uchaf, Cwmsychpant. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi, a chofiwch bod cyfle i chi gystadlu mis yma eto gyda'r holl graeonau a piniau ffelt newydd gawsoch chi'n anrhegion Nadolig. Pob lwc.

Danfonwch nhw ataf i erbyn dydd Sadwrn, 19eg Chwefror 2011.

Hwyl am y tro,




Enillydd y mis!

Lois Mai Jones



**Enw:**

**Cyfeiriad:**

# Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed

**Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc**

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref eleni.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerâu digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Yn y misoedd nesaf, bydd cystadleuaeth ffotograffiaeth yn Clonc. Gofynnir am lun o olygfa yn yr ardal am yr amser hwnnw o'r flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn, rhifyn Chwefror, rydym yn chwilio am luniau'r Gaeaf. Ac yn y rhifynau nesaf bydd angen lluniau i gynrychioli'r tymhorau eraill

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

**Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau** a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

**Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau.** Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i cystadleuaeth@clonc.co.uk Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw:
**Dydd Iau 20fed Chwefror.**




# Clecs y Coleg

Yng ngolau'r Seren glaer o hyd
At Dduw y duwiau yn ei grud

Ar noson serennog oer ddechrau mis Rhagfyr, cynhaliwyd plygain traddodiadol o dan nawdd Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Dwyieithrwydd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, ar hen gampws hyfryd Llambed. Er mai dechrau Rhagfyr oedd hi, roedd yr ardal o gwmpas y ffynnon fel môr o wydr, a'r grisiau i fyny at y brif fynedfa wedi eu graeanu'n drwm. 'Ganol gaeaf noethlwm cwynai'r rhewynt oer' yn wir.

Ond dyna yw'r tywydd traddodiadol ar gyfer plygeiniau, ac ar noson o rew caled mentrodd cynulleidfa o bell ac agos yn dyrfa foliannus i Gapel y Coleg lle cafwyd croeso cynnes gan y Tad Matthew Hill a oedd yng ngofal y gwasanaeth. Daeth carolwyr a phartïon draw o bob cyfeiriad i gymryd rhan, o Landeilo Fawr a Chrymych, o Gaerfyrddin a Phenrhyncoch, heb anghofio wrth gwrs am Barti Plygain y Brifysgol ei hun, sef myfyrwyr ac aelodau o staff campws Llambed.

Eleni am y tro cyntaf darlledwyd y gwasanaeth yn fyw ar y We fel bod ein myfyrwyr a'n cyfeillion ym mhedwar ban byd yn medru ymuno â ni yn y mawl. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ysgafn a gwin cynnes cyn i bawb droi am adref wedi eu paratoi ar gyfer y Nadolig.

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421

**Gwasanaeth Casglu Gwastraff Masnachol Newydd**

*Am wasanaeth dibynadwy a chost effeithiol ar gyfer eich holl anghenion gwastraff*
cysylltwch â ni ar:
**01570 421421**

**Gwasanaeth Bin ar Olwynion Newydd**
(1100L, 660L a 240L)

Ffordd Tregaron
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LT

**01570 421421**

*Nadolig Llawen.*



Gorsaf Brawf MOT

**GAREJ BRONDEIFI**

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX
* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth
01570 422305
07974 422 305

CLONC

CYFRi
CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)
Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.
Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

Dylan Davies



*CYFLENWI LLORIAU PREN CALED A'U GOSOD*

*GWAITH SAER*
*GWAITH TO*
*GWAITH GOSOD LLECHI*
*RHEOLI PROSIECTAU*
*GWAITH ADEILADU CYFLAWN*
*ESTYNIADAU*
*GWAITH BLOCIAU*
*GOSOD BRICS*





*CYFLENWI CEGINAU AC YSTAFELLOEDD YMOLCHI A'U GOSOD*





*FFENESTRI UPVC*
*FFENESTRI A DRYSAU*
*PREN CALED A MEDDAL*

**07814 027849**



Helen Davies o Lambed yn cyflwyno siec am £1351 i aelodau cangen Llanybydder o Gymdeithas Diabetes UK Cymru - arian a gododd trwy gymryd rhan yn hanner marathon Caerdydd.



Jack Jenkins o Lanybydder yn cyflwyno tair siec am £700 yr un i gynrychiolwyr Sefydliad Prydeinig y Galon, Cancr UK a Diabetes UK Cymru, arian a godwyd mewn tair gyrfa chwist a drefnwyd ganddo yn ystod gaeaf 2009/2010.

# Digwyddiadau'r fro



Dyma ddisgyblion Cylch Gwenog yn mwynhau perfformiad gan Gwmni Drama Arad Goch yn ddiweddar.





Yn ystod 2010 fe wnaeth Doreen Williams a Delyth Evans o Lanybydder drefnu dwy noson elusennol a raffl fawr. Yn y noson gyntaf yn y Llew Du, Llanybydder Dewi Pws a'r grŵp Radwn a fu yn diddori ac yna ym mis Hydref cafwyd adloniant a dawnsio yng nghwmni Jac y Do gyda Don Davies yn llonni'r dorf gyda'i storïau doniol. Yn ganlyniad i hynny oll, cyflwynwyd sieciau am £1700 yr un i Ambiwlas Awyr Cymru a'r Gymdeithas Sglerosis Ymledol. Gwnaeth Rhian Jones noddi'r Gymdeithas Sglerosis Ymledol trwy gynllun punt am bunt Banc Barclays a chyfrannu £750.

Yn y llun o'r chwith mae Doreen William, Ann Edwards o Ambiwlans Awyr Cymru, Alison Atkins o'r  Gymdeithas Sglerosis Ymledol, Delyth Evans a Rhian Jones.

**Cylch Trafod Amaethyddol Lanbedr Pont Steffan**

Nos Fawrth gyntaf y flwyddyn pleser oedd cael teulu Fronfedw, Dihewyd i annerch y grŵp ac i sôn am y Blonde D'Aqutaine sef brid o wartheg sy'n gynhenid i Dde Ffrainc ond sydd erbyn hyn yn boblogaidd iawn yng ngwledydd Prydain. Ynghanol yr 80au roedd Dai Davies yn awyddus i arbrofi â brid cyfandirol i roi i'w wartheg godro ond yn groes i'r ffasiwn nid aeth ar ôl y Charolais na'r Limousin ond aeth am y Blonde. Gan fod y lloi yn rhwydd a didraferth ar eu bwriad ac yn datblygu cyrff cigog yn fuan, penderfynodd Dai brynu dwy dreisiad Blonde bur a sefydlu buches Blonde Fronfedw. Gyda chymorth ei fab Rhydian a'i ferch Menna dangoswyd lluniau o'r buchod sydd wedi ennill pencampwriaethau yn Llanelwedd a thu hwnt. Trwy ddulliau tarw potel mae rhai o deirw Fronfedw erbyn hyn wedi cael eu defnyddio mor bell i ffwrdd ag Awstralia. Mae gan Rhydian wybodaeth drylwyr iawn am y brid a soniodd am rinweddau a gwendidau ambell linell waed.

Y nos Wener ganlynol cynhaliwyd cinio blynyddol y cylch yn y Llew Du. Croesawyd y gŵr gwadd Mr. John Davies o Grymych gan y Cadeirydd Mr. Eifion Jones, Talarwen. Cafodd John lawer o gapiau dros Gymru wrth chwarae rygbi dosbarth cyntaf gyda Chastell Nedd, Richmond a Llanelli. Soniodd am rai o'i anturiaethau adeg ennill y crys coch ar y maes ac oddi ar y maes. Cyhoeddwyd yr enillwyr yn y gystadleuaeth ogor ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn, GWAIR: 1, Alan Bellamy, Hendy, Llanybydder. 2, Denley Jenkins, Pantyrodyn. 3, Delyth a Teifi Jenkins. BYRNAU MAWR: 1, Teifi a Delyth Jenkins. 2, Denley Jenkins. 3, Brinley Davies, Penlan, Talsarn. SILWAIR CLAMP: 1, Alan Bellamy. 2, Graham ac Iwan Uridge. 3, Andrew Jones, Dolbeudy, Felinfach. Enillydd y bencampwriaeth ac yn derbyn Cwpan Her Coffa Albert Evans oedd Allan Bellamy. Enillwyd cystadleuaeth y ffotograff gan Aneurin Davies. Diolchodd yr Is Gadeirydd i bawb ac yn arbennig i'r Ysgrifennydd Mr. Gareth Jones Cilerwisg a'i wraig Ann am eu gwaith yn ystod y flwyddyn ac i'r Trysorydd diwyd Mr John H. Jones, Dolaugwyrddion am drefnu'r noswaith. Ar y 15ed o Chwefror bydd dau enillydd Fferm Ffactor, Aled Rees a Teifi Jenkins yn sôn am eu profiadau wrth ffilmio'r gyfres.



O'r chwith, (rhes flaen) Gareth Jones Cilerwisg, John Davies Crymych, Twynog Davies, Llywydd Anrhydeddus, Alan ac Ann Bellamy, Teifi Jenkins, Denley Jenkins. O'r chwith (rhes ôl) Iwan Uridge, Graham Uridge, Eifion Jones, Cadeirydd, John Bolwell, Is Gadeirydd a Brinley Davies.

Llun gan Aneurin Davies